# Agenda - Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Lleoliad:

**Fideogynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Llun, 15 Ionawr 2024

Amser: 13.30

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**P Gareth Williams**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddDCC@senedd.cymru

---

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(13.30)

## 2 Offerynnau nad ydynt yn cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3.

(13.30 - 13.35) (Tudalennau 1 - 2)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-02-24 - Papur 1 - Adroddiad drafft

**Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Gwneud Negyddol**

**2.1 SL(6)428 - Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Cofrestru) (Cymru) (Diwygio) 2023**

**2.2 SL(6)429 - Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Ymwelwyr Tramor) (Diwygio) (Rhif 3) (Cymru) 2023**

## 3 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3.

(13.35 - 13.40)

**Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Gwneud Negyddol**

**3.1 SL(6)430 - Gorchymyn Prentisiaethau (Manyleb Safonau Prentisiaethau Cymru) (Addasu) (Dirymu) 2023**

(Tudalennau 3 - 6)

Gorchymyn

Memorandwm Esboniadol

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-02-24 - Papur 2 - Adroddiad drafft

LJC(6)-02-24 - Papur 3 - Llythyr gan Weinidog yr Economi, 8 Rhagfyr 2023

**3.2 SL(6)431 - Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Rhif 3) (Cymru) 2023**

(Tudalennau 7 - 11)

Rheoliadau

Memorandwm Esboniadol

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-02-24 - Papur 4 - Adroddiad drafft

**3.3 SL(6)433 - Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Rhyddhad Gwelliannau) (Cymru) 2023**

(Tudalennau 12 - 13)

Rheoliadau

Memorandwm Esboniadol

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-02-24 - Papur 5 - Adroddiad drafft

**3.4 SL(6)434 - Rheoliadau Adroddiadau Blynyddol Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol (Ffurf Ragnodedig) (Cymru) (Diwygio a Darpariaeth Drosiannol) 2023**

(Tudalennau 14 - 16)

Rheoliadau

Memorandwm Esboniadol

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-02-24 - Papur 6 - Adroddiad drafft

**Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Cadarnhaol**

**3.5 SL(6)432 - Rheoliadau Gwin (Diwygio) (Cymru) 2024**

(Tudalennau 17 - 19)

Rheoliadau

Memorandwm Esboniadol

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-02-24 - Papur 7 - Adroddiad drafft

# 4 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3 - trafodwyd eisoes

(13.40 - 13.45)

**Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Gwneud Negyddol**

**4.1 SL(6)419 - Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 3) 2023**

(Tudalennau 20 - 24)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-02-24 - Papur 8 - Adroddiad

LJC(6)-02-24 - Papur 9 - Ymateb Llywodraeth Cymru

**4.2 SL(6)436 - Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 4) 2023**

(Tudalennau 25 - 29)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-02-24 - Papur 10 - Adroddiad

LJC(6)-02-24 - Papur 11 - Ymateb Llywodraeth Cymru

**4.3 SL(6)427 - Rheoliadau'r Proffesiwn Rheolaeth Adeiladu (Taliadau) (Cymru) 2023**

(Tudalennau 30 - 33)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-02-24 - Papur 12 - Adroddiad

LJC(6)-02-24 - Papur 13 - Ymateb Llywodraeth Cymru

## 5 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.7 – trafodwyd eisoes

(13.45 – 13.50)

## 6 Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol

(13.50 – 13.55)

### 6.1 Datganiad Ysgrifenedig a gohebiaeth gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd: Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Estyn Cyfnodau Trosiannol) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2024

(Tudalennau 34 – 37)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-02-24 – Papur 14 – Datganiad Ysgrifenedig gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, 10 Ionawr 2024

LJC(6)-02-24 – Papur 15 – Llythyr gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, 10 Ionawr 2024

## 7 Papurau i'w nodi

(13.55 – 14.00)

### 7.1 Gohebiaeth gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol: Bil Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru)

(Tudalen 38)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-02-24 – Papur 16 – Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, 9 Ionawr 2024

## 8 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

(14.00)

## 9 Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru): Adroddiad drafft

(14.00 - 14.25) (Tudalennau 39 - 47)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-02-24 - Papur 17 - Adroddiad drafft [Saesneg yn unig]

LJC(6)-02-24 - Papur 18 - Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, 19 Rhagfyr 2023

LJC(6)-02-24 - Papur 19 - Llythyr at y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, 28 Tachwedd 2023

## 10 Cytundebau rhyngwladol: Adroddiad drafft

(14.25 - 14.35) (Tudalennau 48 - 53)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-02-24 - Papur 20 - Adroddiad drafft [Saesneg yn unig]

## 11 Adroddiad monitro

(14.35 - 14.45) (Tudalennau 54 - 74)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-02-24 - Papur 21 - Adroddiad monitro [Saesneg yn unig]

## 12 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ar y Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol

(14.45 - 15.00) (Tudalennau 75 - 87)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-02-24 - Papur 22 - Nodyn Cyngor Cyfreithiol [Saesneg yn unig]

## 13 Cyllideb Ddrafft 2024-25 Llywodraeth Cymru Trafod gwariant arfaethedig

(15.00 - 15.15) (Tudalennau 88 - 96)

Llywodraeth Cymru: Cyllideb Ddrafft 2024 - 25

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-02-24 - Papur 23 - Briff Ymchwil [Saesneg yn unig]

## 14 Ymchwiliad i lywodraethiant y DU a'r UE: Diweddariad

(15.15 - 15.25)

# Offerynnau Statudol sydd ag Adroddiadau Clir
# 15 Ionawr 2024

## SL(6)428 – Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Cofrestru) (Cymru) (Diwygio) 2023

### Gweithdrefn: Gwneud Negyddol

Mae Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Cofrestru) (Cymru) 2017 (Rheoliadau 2017) yn gwneud darpariaeth ynghylch ffurf a chynnwys ceisiadau i gofrestru a cheisiadau i amrywio cofrestriad o dan Ran 1 o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 (Deddf 2016).

Rhagnodwyd "gwasanaethau preswyl ysgolion arbennig" fel gwasanaeth rheoleiddiedig at ddibenion Rhan 1 o Ddeddf 2016 gan Reoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Gwasanaethau Preswyl Ysgolion Arbennig) (Cymru) 2023.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau 2017 fel bod Rheoliadau 2017 yn gymwys i wasanaethau preswyl ysgolion arbennig.

**Rhiant-Ddeddf:** Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016

**Fe'u gwnaed ar:** 06 Rhagfyr 2023

**Fe'u gosodwyd ar:** 08 Rhagfyr 2023

**Yn dod i rym ar:** 31 Rhagfyr 2023

# Offerynnau Statudol sydd ag Adroddiadau Clir
# 15 Ionawr 2024

## SL(6)429 – Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Ymwelwyr Tramor) (Diwygio) (Rhif 3) (Cymru) 2023

### Gweithdrefn: Gwneud Negyddol

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Ymwelwyr Tramor) 1989 (O.S. 1989/306) ("y prif Reoliadau"), sy'n darparu ar gyfer codi ac adennill ffioedd am wasanaethau perthnasol a ddarperir o dan Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 i bersonau penodol nad ydynt yn preswylio fel arfer yn y Deyrnas Unedig. Mae rheoliad 2 yn ychwanegu Gwlad yr Iâ a Liechtenstein at y rhestr o wledydd neu diriogaethau y mae Llywodraeth y DU wedi ymrwymo i gytundeb cilyddol â hwy yn Atodlen 2 i'r prif Reoliadau.

**Rhiant-Ddeddf:** Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006

**Fe'u gwnaed ar:** 06 Rhagfyr 2023

**Fe'u gosodwyd ar:** 08 Rhagfyr 2023

**Yn dod i rym ar:** 01 Ionawr 2024

# SL(6)430 – Gorchymyn Prentisiaethau (Manyleb Safonau Prentisiaethau Cymru) (Addasu) (Dirymu) 2023

## Cefndir a Diben

Mae Manyleb Safonau Prentisiaethau Cymru (**SASW**) yn pennu'r gofynion y mae'n rhaid eu bodloni er mwyn i fframweithiau prentisiaethau Cymreig cydnabyddedig gael eu dyroddi. Addaswyd Manyleb Safonau Prentisiaethau Cymru gan Orchymyn Prentisiaethau (Manyleb Safonau Prentisiaethau Cymru) (Addasu) 2023 (y "**Gorchymyn Addasu**").

Mae'r Gorchymyn hwn yn dirymu'r Gorchymyn Addasu o ganlyniad i 13 o bwyntiau adrodd technegol a nodir yn Adroddiad y Pwyllgor ar y Gorchymyn Addasu.

Gwnaed y Gorchymyn hwn ar 7 Rhagfyr 2023 a daeth i rym ar 9 Rhagfyr 2023.

## Gweithdrefn

Negyddol.

Gwnaed y Gorchymyn gan Weinidogion Cymru cyn iddo gael ei osod gerbron y Senedd. Gall y Senedd ddirymu'r Gorchymyn o fewn 40 niwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu, neu (ii) mewn cyfnod o doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'i gosodwyd gerbron y Senedd.

## Materion technegol: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodir y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn:

1. **Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Nodwn fod y confensiwn 21 diwrnod yn cael ei dorri (h.y. y rheol y dylai 21 diwrnod fynd heibio rhwng y dyddiad y gosodir offeryn "gwneud negyddol" gerbron y Senedd a'r dyddiad y daw'r offeryn i rym), a nodwn yr esboniad a ganlyn am dorri'r confensiwn a roddodd Vaughan Gething AS, Gweinidog yr Economi, mewn llythyr at y Llywydd, dyddiedig 8 Rhagfyr 2023:

*"…Diben y Gorchymyn [Addasu] oedd gwneud newidiadau i'r [SASW] i gefnogi nodau polisi Llywodraeth Cymru mewn perthynas â phrentisiaethau.*

*Mae'r Fanyleb yn pennu'r gofynion y mae rhaid eu bodloni er mwyn i fframweithiau prentisiaethau Cymreig cydnabyddedig gael eu dyroddi o dan adran 19(1) o Ddeddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu 2009 ("Deddf 2009").*

*… Ar ôl derbyn adroddiad gan y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad daeth yn amlwg bod diffygion technegol yn y Gorchymyn a fyddai'n ei atal rhag gweithio fel y bwriadwyd. Felly mae angen dirymu'r Gorchymyn Addasu cyn iddo ddod i rym ar 11 Rhagfyr."*

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**10 Ionawr 2024**

**Vaughan Gething AS/MS**
**Gweinidog yr Economi**
**Minister for Economy**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref VG/00424/23

Elin Jones AS
Y Llywydd
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CAERDYDD
CF99 1SN

8 Rhagfyr 2023

Annwyl Elin,

**Gorchymyn Prentisiaethau (Manyleb Safonau Prentisiaethau Cymru) (Addasu) (Dirymu) 2023**

Yn unol ag adran 11A(4) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946 rwyf yn eich hysbysu y bydd yr offeryn statudol hwn yn dod i rym ar 9 Rhagfyr 2023, llai na 21 diwrnod ar ôl iddo gael ei osod. Amgaeir copi o'r offeryn a'r Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd ag ef er gwybodaeth ichi.

Ar 17 Tachwedd 2023 gwnaeth Gweinidog yr Economi y Gorchymyn Prentisiaethau (Manyleb Safonau Prentisiaethau Cymru) (Addasu) 2023 ("y Gorchymyn Addasu"). Diben y Gorchymyn oedd gwneud newidiadau i *Manyleb Safonau Prentisiaethau Cymru ("y Fanyleb")* i gefnogi nodau polisi Llywodraeth Cymru mewn perthynas â phrentisiaethau. Gosodwyd y Gorchymyn yn y Senedd ar 20 Tachwedd 2023.

Mae’r Fanyleb yn pennu’r gofynion y mae rhaid eu bodloni er mwyn i fframweithiau prentisiaethau Cymreig cydnabyddedig gael eu dyroddi o dan adran 19(1) o Ddeddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu 2009 ("Deddf 2009").
Rhaid i bob fframwaith prentisiaeth fodloni'r gofynion a bennir yn y Fanyleb addasedig i fod yn fframwaith Cymreig cydnabyddedig a ddyroddir o dan adran 19(1) o Ddeddf 2009.

Ar ôl derbyn adroddiad gan y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad daeth yn amlwg bod diffygion technegol yn y Gorchymyn a fyddai'n ei atal rhag gweithio fel y bwriadwyd. Felly mae angen dirymu'r Gorchymyn Addasu cyn iddo ddod i rym ar 11 Rhagfyr.

Pe byddem yn glynu at y confensiwn 21 diwrnod, byddai'r Gorchymyn Prentisiaethau (Manyleb Safonau Prentisiaethau Cymru) (Addasu) 2023 yn dod i rym ar 11 Rhagfyr â diffygion technegol yn y Fanyleb a fyddai'n atal yr addasiadau rhag gweithio fel y bwriadwyd.

Mae torri'r confensiwn 21 diwrnod yn caniatáu i'r Gorchymyn Prentisiaethau (Manyleb Safonau Prentisiaethau Cymru) (Addasu) 2023 gael ei ddirymu, a bydd Gorchymyn newydd

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn y Gymraeg. Bydd gohebiaeth sy'n dod i law yn Gymraeg yn cael ei hateb yn Gymraeg, ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

yn cael ei lunio yn y flwyddyn newydd i weithredu bwriadau polisi Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r Fanyleb.

Rwyf yn anfon copi o'r llythyr hwn at y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd; Huw Irranca-Davies AS, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad; Siwan Davies, Cyfarwyddwr Busnes y Senedd; Bethan Davies, Pennaeth Gwasanaethau'r Siambr a Phwyllgorau a Julian Luke, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth.

Yn gywir,

**Vaughan Gething AS/MS**
Gweinidog yr Economi
Minister for Economy

# SL(6)431 – Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Rhif 3) (Cymru) 2023

## Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio amryw Reoliadau presennol sy'n ymwneud â chyllid myfyrwyr.

Mae'r Rheoliadau hyn wedi'u rhannu'n naw Rhan:

- Mae Rhan 1 yn gwneud darpariaeth ynghylch dod â'r Rheoliadau hyn i rym a'u cymhwyso;
- Mae Rhan 2 yn diwygio Rheoliadau Addysg (Ffioedd a Dyfarniadau) (Cymru) 2007 ("Rheoliadau 2007");
- Mae Rhan 3 yn diwygio Rheoliadau Addysg (Athrofa Brifysgol Ewropeaidd) (Cymru) 2014 ("Rheoliadau 2014");
- Mae Rhan 4 yn diwygio Rheoliadau Addysg Uwch (Cyrsiau Cymhwysol, Personau Cymhwysol a Darpariaeth Atodol) (Cymru) 2015 ("Rheoliadau 2015");
- Mae Rhan 5 yn diwygio Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2017 ("Rheoliadau 2017");
- Mae Rhan 6 yn diwygio Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2018 ("Rheoliadau 2018");
- Mae Rhan 7 yn diwygio Rheoliadau Addysg (Benthyciadau at Radd Ddoethurol Ôl-raddedig) (Cymru) 2018 ("y Rheoliadau Benthyciadau at Radd Ddoethurol");
- Mae Rhan 8 yn diwygio Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Graddau Meistr Ôl-raddedig) (Cymru) 2019 ("Rheoliadau 2019"); ac
- Mae Rhan 9 yn gwneud arbedion mewn cysylltiad â Rheoliadau 2014 a Rheoliadau 2018.

Mae'r diwygiadau a wneir gan y Rheoliadau hyn:

- yn diweddaru'r categorïau o fyfyrwyr cymwys yn Rheoliadau 2014, Rheoliadau 2017, Rheoliadau 2018, y Rheoliadau Benthyciadau at Radd Ddoethurol a Rheoliadau 2019 ac yn gwneud newidiadau cyfatebol i Reoliadau 2007 a Rheoliadau 2015, i gynnwys aelodau penodol o deuluoedd personau y rhoddwyd caniatâd iddynt i ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig neu i aros ynddi o dan y cynlluniau mewnfudo sy'n ymwneud ag Affganistan neu Wcráin;
- yn diweddaru'r diffiniad o "person sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros fel dinesydd perthnasol o Affganistan" yn Rheoliadau 2014 o ganlyniad i newidiadau i'r rheolau mewnfudo;
- yn hepgor cyfeiriadau darfodedig at ddeddfwriaeth yr Alban yn Rheoliadau 2017 a Rheoliadau 2018;

- yn ei gwneud yn ofynnol i fyfyrwyr dysgu o bell fod yng Nghymru ar ddiwrnod cyntaf y flwyddyn academaidd gyntaf er mwyn cymhwyso i gael grant ar gyfer dibynyddion, oni bai bod eithriad yn gymwys, o dan Reoliadau 2018; ac
- yn darparu ar gyfer terfynu cymhwystra yn gynnar o dan y Rheoliadau Benthyciadau at Radd Ddoethurol a Rheoliadau 2019 pan fo mathau penodol o ganiatâd sydd gan fyfyriwr i ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig neu i aros ynddi wedi dod i ben.

## Gweithdrefn

Negyddol.

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Gall y Senedd ddirymu'r Rheoliadau o fewn 40 niwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y cawsant eu gosod gerbron y Senedd.

## Materion technegol: craffu

Nodwyd yr wyth pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn cysylltiad â'r offeryn hwn:

**1. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol**

Yn rheoliad 5(b), yn y diffiniad newydd o "person sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros fel dinesydd perthnasol o Affganistan", ym mharagraff (a), mae cyfeiriad at "baragraff 276BA2 o'r rheolau mewnfudo". Fodd bynnag, dangosir "paragraff 276BA2" fel un sydd wedi'i ddileu yn y rheolau mewnfudo ar wefan Llywodraeth y DU. Nid yw'n glir a oes angen diweddaru'r cyfeiriad hwn yn y diffiniad neu a yw'n cyfeirio at ddinasyddion Affganistan sydd eisoes wedi cael caniatâd amhenodol i ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig o dan y paragraff hwnnw. Mae cyfeiriadau eraill hefyd at "baragraff 276BA2" yn y diwygiadau a geir yn rheoliadau 9(a) a 16(b).

**2. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol**

Yn rheoliadau 19(b), 21(b) a 22(b), mae'n ymddangos bod y diwygiadau wedi'u drafftio'n anghywir gan y bydd y geiriau "y caniateir i A aros yn y Deyrnas Unedig" ar goll o'r testun newydd fel y'i diwygiwyd.

Er enghraifft, o ganlyniad i'r diwygiad a geir yn rheoliad 19(b) o'r Rheoliadau hyn, bydd testun newydd rheoliad 4(10F)(b) o Reoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2017 yn darllen fel a ganlyn:

> *"…y cyfnod [y caniateir i'r person y rhoddwyd caniatâd iddo i ddod i mewn neu i aros] fel gwladolyn Wcreinaidd a ddiogelir wedi terfynu, ac nad oes unrhyw hawl bellach i*

*ddod i mewn neu i aros wedi ei rhoi…".*

Fodd bynnag, mae'n ymddangos bod angen y geiriau ychwanegol "aros yn y Deyrnas Unedig" ar ôl y geiriau "y caniateir" er mwyn cwblhau ystyr y frawddeg, yn enwedig o'i chymharu â diwygiadau eraill a wneir gan y Rheoliadau hyn (e.e., rheoliadau 12(b) a 63). Pe bai'r geiriau hynny'n cael eu cynnwys, byddai'r testun diwygiedig yn darllen fel a ganlyn:

> *"…y cyfnod y caniateir i'r ["person y rhoddwyd caniatâd iddo i ddod i mewn neu i aros] fel gwladolyn Wcreinaidd a ddiogelir [**aros yn y Deyrnas Unedig]** wedi terfynu, ac nad oes unrhyw hawl bellach i ddod i mewn neu i aros wedi ei rhoi…".*

Felly, mae angen esbonio'r diwygiadau hyn ymhellach o ran a ddylai'r geiriau ychwanegol hyn fod wedi'u cynnwys hefyd yn y testun terfynol fel y'i diwygiwyd gan reoliadau 19(b), 21(b) a 22(b) o'r Rheoliadau hyn.

**3. Rheol Sefydlog 21.2 (vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol**

Yn rheoliad 36(c)(i) a (ii), disgrifir lleoliadau'r testun presennol ar gyfer y diwygiadau yn anghywir fel "**is-**baragraff (aa)" ac "**is-**baragraff (ab)" yn y drefn honno ond dylid eu disgrifio fel "**paragraff** (aa)" a "**paragraff** (ab)".

**4. Rheol Sefydlog 21.2 (vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol**

Yn rheoliad 55(a) a (b), disgrifir lleoliadau'r testun presennol ar gyfer y diwygiadau yn anghywir fel "**is-**baragraff (b)" ond dylid ei ddisgrifio fel "**paragraff** (b)".

**5. Rheol Sefydlog 21.2 (vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol**

Yn rheoliad 56, disgrifir y diffiniadau newydd fel rhai sydd wedi'u mewnosod "yn y lle priodol yn nhrefn yr wyddor" yn Nhabl 16 o Atodlen 7 i Reoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2018. Fodd bynnag, nid yw'r diffiniadau newydd wedi'u rhestru yn nhrefn yr wyddor yn nhestunau Cymraeg na Saesneg rheoliad 56. Dylai'r ail ddiffiniad ""dyddiad y cais i gael caniatâd i ddod i mewn neu i aros" (at ddiben penderfynu a yw person yn bartner a [d]diogelir neu'n blentyn i bartner a ddiogelir)" ymddangos o flaen y diffiniad cyntaf yn rhestr testunau'r ddwy iaith os ydynt i'w trefnu yn nhrefn yr wyddor pan gaiff ei fewnosod yn Nhabl 16 o Atodlen 7. Yn ogystal, mae fformatio'r rhestr o gofnodion tablau yn ddryslyd gan fod llinell lorweddol sengl yn ymddangos ar ôl y diffiniad cyntaf yn y testunau Cymraeg a

Saesneg, ac mae llinellau ychwanegol hefyd yng nghanol yr un diffiniad ar waelod ac ar frig y tudalennau 25 a 26 yn y testun Cymraeg.

**6. Rheol Sefydlog 21.2(vii) - ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg yr offeryn neu'r drafft**

Yn rheoliad 56, yn y testun Cymraeg, mae'n ymddangos bod gwall hanesyddol a gedwir yn y diffiniad newydd terfynol o "dyddiad y cais i gael caniatâd i aros" a geir yn y rhestr ar gyfer "Atodlen 2, paragraff 3". Cyfieithir y diffiniadau eraill yn y rhestr yn wahanol fel "dyddiad y cais i gael caniatâd i **ddod i mewn neu** i aros". Mae'n wir mai "dyddiad y cais i gael caniatâd i aros" yw'r diffiniad a ddefnyddiwyd yn nhestun Cymraeg paragraff 3(2)(b), (3)(b) a (5) o Atodlen 2 i Reoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2018. Ond ystyr "leave application date" ym mharagraff 3(5) o Atodlen 2 i'r Rheoliadau hynny yw "y dyddiad y gwnaeth y person sydd â chaniatâd **i ddod i mewn neu i aros** y cais a arweiniodd at roi caniatâd i'r person hwnnw **i ddod i mewn neu i aros** yn y Deyrnas Unedig". Felly, mae'r cyfieithiad presennol o'r term hwnnw yn anghywir oherwydd ei fod yn golygu "dyddiad y cais i gael caniatâd **i aros**" yn hytrach na "dyddiad y cais i gael caniatâd **i ddod i mewn neu i aros**", ac y mae'r gwall hanesyddol hwnnw'n cael ei gadw gan y diffiniad Cymraeg a restrir ar gyfer "Atodlen 2, paragraff 3" gan reoliad 56 o'r Rheoliadau hyn. Dylai'r testun Cymraeg nodi "dyddiad y cais i gael caniatâd i ddod i mewn neu i aros" fel sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer y cofnodion eraill a restrir yn rheoliad 56.

**7. Rheol Sefydlog 21.2(vii) - ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg yr offeryn neu'r drafft**

Yn rheoliad 80(3), yn y testun Cymraeg, mae'r diffiniad "current Afghan scheme student" wedi'i gyfieithu a'i ddiffinio fel "myfyriwr **presennol** sydd ar y cynllun **Afghanistan**" at ddibenion y rheoliad hwnnw. Fodd bynnag, nid dyma'r term sydd wedi'i ddefnyddio mewn gwirionedd yn nhestun Cymraeg rheoliad 80(1) sef "myfyriwr **cyfredol** sydd ar y cynllun **Affganistan**" (y term a ddiffiniwyd yn flaenorol ac a ddefnyddiwyd yn gyson yn nhestun Cymraeg rheoliad 79). Mae hefyd yn golygu bod y diffiniad Cymraeg a geir mewn testun italig rhwng cromfachau yn union ar ôl y diffiniad o "current Afghan scheme student" yn nhestun Saesneg rheoliad 80(3) yn anghywir.

**8. Rheol Sefydlog 21.2(vii) - ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg yr offeryn neu'r drafft**

Yn rheoliad 80(3), yn y testun Saesneg, nid yw'r diffiniadau o "relevant course" a "relevant student" yn cynnwys y diffiniadau Cymraeg cyfatebol mewn testun italig a rhwng cromfachau wedyn.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn cysylltiad â'r offeryn hwn:

**9. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy’n debyg o fod o ddiddordeb i’r Senedd.**

Nodwn na fu unrhyw ymgynghori ffurfiol ar y Rheoliadau hyn. Yn benodol, nodwn y paragraff 5.1 a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

> *“Ni chynhaliwyd ymgynghoriad gan fod rhai o'r gwelliannau yn ofynnol i gywiro a diweddaru'r gyfraith sy'n deillio o newidiadau i reolau mewnfudo ac i ddileu darpariaeth reoleiddiol ddiangen.  Mae diwygiadau eraill sy'n ymestyn cymhwystra ar gyfer cymorth i fyfyrwyr yn cefnogi polisi Llywodraeth Cymru ar fod yn 'Genedl Noddfa'*.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb Llywodraeth Cymru mewn cysylltiad â phwyntiau 1-8.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad**
**10 Ionawr 2024**

# SL(6)433 – Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Rhyddhad Gwelliannau) (Cymru) 2023

## Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn cael effaith at ddibenion penderfynu cymhwystra ar gyfer rhyddhad gwelliannau rhag atebolrwydd am ardrethu annomestig, a chyfrifo swm y rhyddhad hwnnw. Maent yn pennu'r amodau y mae rhaid eu bodloni i fod yn gymwys i gael rhyddhad gwelliannau; yn diffinio ystyr "gwaith gwella cymhwysol" at ddiben penderfynu cymhwystra ar gyfer rhyddhad gwelliannau; yn gosod y swm "G", sy'n penderfynu symiau'r rhyddhad sydd i'w rhoi i hereditamentau penodol y mae'r symiau a godir arnynt yn cael eu cyfrifo yn unol â fformiwlâu penodol; ac yn gwneud darpariaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r swyddog prisio priodol ardystio gwerthoedd ardrethol at ddibenion cymhwyso'r Rheoliadau hyn.

Mae'r Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau yn nodi mai eu bwriad yw cymell buddsoddiad mewn gwelliannau i eiddo drwy ddarparu rhyddhad i dalwyr ardrethi rhag effaith cynnydd mewn gwerth ardrethol ar eu hatebolrwydd am ardrethu annomestig, a fyddai'n digwydd fel arall, am gyfnod o ddeuddeg mis.

## Gweithdrefn

Negyddol.

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Gall y Senedd ddirymu'r Rheoliadau o fewn 40 niwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnod pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'u gosodwyd gerbron y Senedd.

## Materion technegol: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodir y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn:

1. **Rheol Sefydlog 21.3 – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Mae'r Pwyllgor yn nodi bod y Rheoliadau hyn yn ymwneud ag Atodlenni 4ZA a 5A ("yr Atodlenni") i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 ("Deddf 1988"), ond yn nodi nad yw'r Atodlenni hynny wedi dod i rym eto. Mae'r Atodlenni wedi'u mewnosod yn Neddf 1988 gan Ddeddf Ardrethu Annomestig 2023 ("Deddf 2023"). O dan adran 19(2) o Ddeddf 2023, bydd

yr Atodlenni yn cael effaith mewn perthynas â blynyddoedd ariannol sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2024 neu ar ôl hynny. Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 1 Ebrill 2024, a hynny er mwyn cyd-fynd â'r adeg y daw'r Atodlenni i rym.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**21 Rhagfyr 2023**

Eitem 3.4

# SL(6)434 – Rheoliadau Adroddiadau Blynyddol Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol (Ffurf Ragnodedig) (Cymru) (Diwygio a Darpariaeth Drosiannol) 2023

## Cefndir a Diben

Mae Rheoliadau Adroddiadau Blynyddol Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol (Ffurf Ragnodedig) (Cymru) 2017 ("Rheoliadau 2017") yn nodi'r wybodaeth benodol sydd i'w chynnwys yn adroddiadau blynyddol awdurdodau lleol sy'n ymwneud â'u swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol, a'r penawdau y dylid cynnwys y wybodaeth angenrheidiol oddi tanynt.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau 2017 i ddiweddaru'r wybodaeth y mae'n rhaid ei chynnwys mewn adroddiadau blynyddol a'r penawdau y dylid cynnwys y wybodaeth angenrheidiol oddi tanynt. Gwneir hyn i sicrhau aliniad â gofynion y Cod Ymarfer diwygiedig (Cod Rhan 8 diwygiedig) a gyhoeddwyd mewn cysylltiad â pherfformiad gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru yn ogystal â'r camau a gymerir i wella'r gwasanaethau hyn.

Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn cynnwys darpariaeth drosiannol sy'n egluro y bydd y diwygiadau a wneir i Reoliadau 2017 yn berthnasol i adroddiadau blynyddol sy'n cael eu llunio o flwyddyn ariannol 2024/25 ymlaen, gan gynnwys y flwyddyn ariannol honno.

## Gweithdrefn

Negyddol.

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Gall y Senedd ddirymu'r Rheoliadau o fewn 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y cawsant eu gosod gerbron y Senedd.

## Materion technegol: craffu

Nodir y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn:

1. **Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol**

Mae rheoliad 4 yn gwneud trefniadau trosiannol mewn cysylltiad â'r diwygiadau a wneir gan y Rheoliadau hyn. Fel y nodir yn y Memorandwm Esboniadol:

"*Rhoddir pŵer i wneud darpariaeth drosiannol o dan adran 196(2)(c) o Ddeddf 2014.*"

Fodd bynnag, nid yw adran 196(2)(c) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 wedi'i henwi fel darpariaeth alluogi yn y rhaglith i'r Rheoliadau hyn.

## Rhinweddau: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

**Pwynt Craffu Technegol 1:** Mae'r Llywodraeth yn cydnabod bod rheoliad 4 yn gwneud trefniadau trosiannol mewn cysylltiad â'r diwygiadau a wneir gan y Rheoliadau hyn, ond nad yw adran 196(2)(c) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn cael ei henwi fel darpariaeth alluogi yn y rhaglith.

Hoffem, fodd bynnag, rannu'r sylwadau a ganlyn â'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad.

1) Mae'r rheoliad penodol o fewn yr offeryn sy'n dibynnu ar adran 196(2)(c) yn rhoi budd i awdurdodau lleol. Rheoliad 4 yw hwn, nad yw ond yn ceisio darparu eglurder i awdurdodau lleol, o ran sut i gymhwyso'r Rheoliadau mewn amgylchiadau pan fônt yn dod i rym ar 1 Ebrill 2024, yn ystod cyfnod pan fydd yr awdurdodau lleol yn dal i gyflwyno adroddiadau ar gyfer y flwyddyn adrodd flaenorol.

2) Nid yw'r Llywodraeth yn credu bod hyn yn newid prif effaith yr offeryn, sy'n parhau i fod intra vires. Mae'r Llywodraeth yn dibynnu ar yr egwyddorion a nodir yn Inco Europe Ltd v First Choice Distribution [2000] 1 WLR 586 i gefnogi ei barn. At hynny, mae gan Weinidogion Cymru y pŵer i wneud y rheoliad ac mae'n amlwg o ddarpariaeth weithredol yr O.S. y bwriadwyd i adran 196(2)(c) gael ei phennu yn y rhaglith, felly dyna pam y mae cyfeiriad ati yn y Memorandwm Esboniadol. Mae'r egwyddor a nodir yn achos Inco, felly, sef y gall y llysoedd ymyrryd i gywiro'r hyn sy'n amlwg yn wall drafftio, yn berthnasol i'r sefyllfa hon.

3) Hyd yn oed os yw peidio ag enwi adran 196(2)(c) yn y rhaglith i'r Rheoliadau yn tanseilio effaith gyfreithiol rheoliad 4, o ystyried mai ei ddiben yn syml yw darparu eglurhad i awdurdodau lleol o ran y gofynion adrodd ar gyfer y cyfnod perthnasol fel yr amlinellir yn 1) uchod, byddai'n bosibl i awdurdodau lleol ddehongli'r Rheoliadau yn y fath fodd pa un bynnag.

Yng ngoleuni'r sylwadau hyn, nid yw'r Llywodraeth yn ystyried bod cyfiawnhad dros gymryd unrhyw gamau i ddiwygio'r Rheoliadau.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**3 Ionawr 2024**

# SL(6)432 – Rheoliadau Gwin (Diwygio) (Cymru) 2024

## Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio deddfwriaeth uniongyrchol a gymathwyd sy'n ymwneud â marchnata gwin ac arferion gwinyddol a ddefnyddir i gynhyrchu a chadw gwin a chynhyrchion gwin eraill. Ystyr "gwinyddol" yw 'yn ymwneud â gwin a gwneud gwin'. Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys yng Nghymru.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Erthygl 53 o Reoliad Dirprwyedig y Comisiwn (EU) 2019/33 dyddiedig 17 Hydref 2018 sy'n ategu Rheoliad (EU) Rhif 1308/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor o ran ceisiadau am warchod dynodiadau tarddiad, dynodiadau daearyddol a thermau traddodiadol yn y sector gwin, y weithdrefn ar gyfer gwrthwynebu, cyfyngiadau ar ddefnydd, diwygiadau i fanylebau cynnyrch, canslo gwarchodaeth, a labelu a chyflwyniad (EUR 2019/33) ("Rheoliad (EU) 2019/33"). Mae'r diwygiad yn mewnosod darpariaeth yn Rheoliad (EU) 2019/33 sy'n gwahardd marchnata cynnyrch gan ddefnyddio'r term "gwin ia" a thermau tebyg (boed yn Gymraeg neu mewn iaith wahanol), onid yw'r cynnyrch yn win sydd wedi ei wneud yn gyfan gwbl o rawnwin sydd wedi rhewi'n naturiol ar y winwydden.

Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn diwygio Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (EU) 2019/934 dyddiedig 12 Mawrth 2019 sy'n ategu Rheoliad (EU) Rhif 1308/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor o ran ardaloedd tyfu gwin lle y caniateir cynyddu'r cryfder alcoholaidd, arferion gwinyddol awdurdodedig a chyfyngiadau sy'n gymwys i gynhyrchu a chadw cynhyrchion gwinwydd, isafswm y ganran o alcohol ar gyfer sgil-gynhyrchion a'u gwaredu, a chyhoeddi ffeiliau OIV (EUR 2019/934) ("Rheoliad (EU) 2019/934").

Mae Rheoliad (EU) 2019/934 yn awdurdodi arferion gwinyddol penodedig. Mae'n ategu Erthygl 80(1) o Reoliad (EU) Rhif 1308/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor dyddiedig 17 Rhagfyr 2013 sy'n sefydlu cyd-drefniadaeth y marchnadoedd mewn cynhyrchion amaethyddol (EUR 2013/1308) ("Rheoliad (EU) Rhif 1308/2013"). Mae Erthygl 80(1) o Reoliad (EU) Rhif 1308/2013 yn gwahardd y defnydd o arferion gwinyddol anawdurdodedig wrth gynhyrchu a chadw gwin a chynhyrchion gwin eraill. Mae'r diwygiadau a wneir i Reoliad (EU) 2019/937 gan yr offeryn hwn yn gwneud newidiadau i'r arferion gwinyddol y caniateir eu defnyddio wrth gynhyrchu a chadw gwin a chynhyrchion gwin eraill.

## Gweithdrefn

Cadarnhaol drafft.

Mae Gweinidogion Cymru wedi gosod drafft o'r Rheoliadau hyn gerbron y Senedd. Ni all Gweinidogion Cymru wneud y Rheoliadau hyn oni bai fod y Senedd yn cymeradwyo'r Rheoliadau drafft.

## Materion technegol: craffu

Nodir y ddau bwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â’r offeryn hwn:

1. **Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu’r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol.**

Yn ail baragraff y rhagymadrodd, ymddengys fod teitl Rheoliad (EC) Rhif 178/2002 yn anghyflawn. Mae'r geiriau 'dyddiedig 28 Ionawr 2002' ar goll ar ôl y gair 'Cyngor'.

2. **Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.**

Yn Rhan 3 o'r Atodlen i'r Rheoliadau hyn, ceir cyfeiriad at 'File 3.4.23 (2023)'. Fodd bynnag, yng Nghod Arferion Gwinyddol yr OIV, y cyfeiriad a geir yn y teitl i ffeil 3.4.23 yw '(OENO 581A-2021 )'. Gofynnir i Lywodraeth Cymru gadarnhau a yw '(2023)' yn gywir ai peidio.

## Rhinweddau: craffu

Nodir y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn:

3. **Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy’n debyg o fod o ddiddordeb i’r Senedd.**

Mae’r Memorandwm Esboniadol yn cynnwys yr esboniad a ganlyn:

> *Mae dau ddiben penodol i’r offeryn statudol hwn.*
>
> *(1) Oherwydd bod y DU yn ymuno â Phartneriaeth Gynhwysfawr a Blaengar y Môr Tawel (CPTPP), rhaid i 4 llywodraeth ddatganoledig y DU gyflwyno rheolau drwy offeryn statudol i wahardd marchnata gwin fel “gwin iâ” a defnyddio disgrifiadau tebyg oni bai bod y cynnyrch yn win a wnaed o rawnwin wedi'i rewi yn naturiol ar y winwydden yn unig. Rhaid i’r offerynnau statudol hyn fod mewn grym erbyn 15 Gorffennaf 2024 pan fydd y DU yn ymuno â CPTPP yn swyddogol.*
>
> *(2) Bydd hefyd yn gwneud newidiadau i'r arferion, prosesau a chyfyngiadau gwinyddol y gellir eu defnyddio wrth gynhyrchu gwin a chynhyrchion gwin eraill ac yn eu cadwraeth. Mae’r newidiadau hyn yn helaeth. (Noder – ystyr “gwinyddol” yw ‘yn ymwneud â gwin a gwneud gwin’).*
>
> *Mae'r offeryn hwn yn gymwys i Gymru yn unig. Mae Defra yn llunio offeryn paralel sy’n berthnasol yn Lloegr. Deellir fod Llywodraeth yr Alban yn llunio ei hofferyn ei hun a fydd yn gymwys yn yr Alban.*

Mae’r Memorandwm Esboniadol hefyd yn nodi’r canlynol, mewn perthynas â chynnal asesiad effaith rheoleiddiol:

> *Mae’r Rheoliadau’n cyflwyno diwygiadau nad ydynt yn addasu’r polisi (na’i effaith) mewn unrhyw ffordd sylweddol; mae’r offeryn statudol yn ymwneud â mân ddiwygiadau technegol sy'n cael eu gwneud i ddeddfwriaeth yr UE a ddargedwir i ddarparu hyblygrwydd i fusnesau. Ni ddisgwylir unrhyw effaith ar fusnesau.*
>
> *Mae hyn yn unol â'r polisi a nodir yng nghod ymarfer Gweinidogion Cymru ar gyfer cynnal asesiadau effaith rheoleiddiol ar gyfer is-ddeddfwriaeth.*

Gan nad yw’r wybodaeth wedi’i nodi’n benodol yn y Memorandwm Esboniadol, gofynnir i Lywodraeth Cymru gadarnhau a oes asesiad effaith rheoleiddiol wedi’i gynnal ai peidio.

Yn ogystal, gofynnir i Lywodraeth Cymru esbonio sut mae’r newidiadau 'helaeth' i'r arferion, y prosesau a'r cyfyngiadau gwinyddol y gellir eu defnyddio wrth gynhyrchu gwin a chynhyrchion gwin eraill ac yn eu cadwraeth yn cael eu hystyried yn fân ddiwygiadau technegol.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru i’r holl bwyntiau adrodd.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad**
**20 Rhagfyr 2023**

# SL(6)419 – Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 3) 2023

## Cefndir a diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021 (O.S. 2021/77 (Cy. 20)) ("Rheoliadau 2021"), a disgwylir iddynt fod i ddod i rym ar 1 Ionawr 2024.

Mae'r Rheoliadau hyn yn gweithredu'r ail gam mewn proses dau gam ar gyfer cyflwyno cyfundrefn rheoli maethynnau uwch ar gyfer blwyddyn galendr 2024, ar gyfer daliadau neu ran o ddaliadau nad oeddent yn flaenorol wedi'u lleoli o fewn Parth Perygl Nitradau ("PPN") ac sydd wedi'u hau ag o leiaf 80% o laswellt (a ddiffinnir yn y Rheoliadau hyn fel "daliadau glaswelltir cymhwysol").

Mae rheoliad 3 yn diwygio rheoliad 2 (mesurau trosiannol ar gyfer daliadau nad oeddent gynt mewn parth perygl nitradau) o Reoliadau 2021. Mae'n newid y dyddiad gweithredu ar gyfer rheoliad 4 (dodi tail da byw – y terfyn o ran cyfanswm y nitrogen ar gyfer yr holl ddaliad) o 1 Ionawr 2024 i 1 Ionawr 2025 ar gyfer daliadau neu rannau o ddaliadau nad oeddent gynt wedi eu lleoli o fewn PPN fel y'i dangosir ar y map mynegai PPN, pan fo 80% neu fwy o'r ardal amaethyddol wedi ei hau â phorfa ("daliadau glaswelltir cymhwysol"). Mae hyn yn golygu nad yw'r terfyn o ran cyfanswm y nitrogen mewn tail da byw ar gyfer yr holl ddaliad (170kg wedi ei luosi ag arwynebedd y daliad mewn hectarau) yn rheoliad 4 o Reoliadau 2021 yn gymwys i ddaliadau glaswelltir cymhwysol hyd 1 Ionawr 2025.

Mae rheoliad 4 yn diwygio rheoliad 3 (dehongli) o Reoliadau 2021 drwy fewnosod diffiniadau o'r termau "cynllun rheoli maetholion uwch", "cyfarpar taenu manwl", "daliad glaswelltir cymhwysol" a "cyfnod perthnasol". Mae hefyd yn rhoi diffiniad o "CNC" yn lle "CANC".

Mae rheoliad 5 yn mewnosod rheoliadau newydd 4A a 4B yn Rheoliadau 2021. Mae rheoliad 4A (dodi tail da byw sy'n pori a da byw nad ydynt yn pori ar ddaliadau glaswelltir cymhwysol yn ystod y cyfnod perthnasol – y terfynau o ran cyfanswm y nitrogen ar gyfer yr holl ddaliad a gofynion ychwanegol) yn pennu, ar gyfer blwyddyn galendr 2024 (y "cyfnod perthnasol"), y terfynau o ran cyfanswm nitrogen yr holl ddaliad yn achos tail da byw sy'n pori a da byw nad ydynt yn pori ar gyfer daliadau glaswelltir cymhwysol. Mae rheoliad 4A(1) yn darparu na chaiff meddianwyr daliadau glaswelltir cymhwysol ddodi ar yr holl ddaliad, yn ystod y cyfnod perthnasol, gyfanswm o nitrogen mewn tail da byw sy'n pori sy'n fwy na 250kg wedi ei luosi ag arwynebedd y daliad mewn hectarau ac na chânt ddodi ar yr holl ddaliad gyfanswm o nitrogen mewn tail da byw nad ydynt yn pori sy'n fwy na 170kg wedi ei luosi ag arwynebedd y daliad mewn hectarau.

Mae rheoliad 4A(2) yn darparu bod rhaid i feddiannydd daliad glaswelltir cymhwysol, pan fo'n bwriadu dodi ar y daliad, yn ystod y cyfnod perthnasol, gyfanswm o nitrogen mewn tail da byw sy'n pori sy'n fwy na 170kg wedi ei luosi ag arwynebedd y daliad mewn hectarau, gydymffurfio â gofynion uwch ychwanegol o ran rheoli maethynnau a bennir o dan Atodlen 1A (gofynion rheoli maethynnau uwch) a hysbysu Cyfoeth Naturiol Cymru ("CNC"). Mae rheoliad 4B (gofynion hysbysu) yn nodi'r gofynion hysbysu y mae rhaid i feddiannydd daliad glaswelltir cymhwysol gydymffurfio â hwy pan fydd yn hysbysu CNC.

Mae rheoliad 6 yn gwneud mân ddiwygiadau i reoliad 14 (taenu tail organig ger dŵr wyneb, tyllau turio, ffynhonnau neu bydewau) o Reoliadau 2021 i gynorthwyo gydag eglurder.

Mae rheoliad 7 yn rhoi cyfeiriadau at "CNC" yn lle cyfeiriadau at "CANC" ym mha le bynnag y maent yn ymddangos yn y Rheoliadau. Mae hyn o ganlyniad i roi diffiniad o "CNC" yn lle'r diffiniad o "CANC" o dan reoliad 3.

Mae rheoliad 8 yn mewnosod Atodlen newydd 1A (gofynion rheoli maethynnau uwch) yn Rheoliadau 2021 sy'n nodi'r gofynion rheoli maethynnau uwch ychwanegol sydd i'w bodloni gan feddiannydd daliad glaswelltir cymhwysol os yw'r meddiannydd yn bwriadu dodi ar y daliad, yn ystod y cyfnod perthnasol, gyfanswm o nitrogen mewn tail da byw sy'n pori sy'n fwy na 170kg wedi ei luosi ag arwynebedd y daliad mewn hectarau.

Bydd y gofynion rheoli maethynnau uwch ychwanegol a nodir yn y Rheoliadau hyn yn gymwys i feddianwyr daliadau glaswelltir cymhwysol, yn ogystal â'r gofynion sydd eisoes yn berthnasol i feddianwyr o'r fath yn rhinwedd Rhannau 2 i 7 o Reoliadau 2021. Hefyd, bydd unrhyw feddiannydd daliad nad yw'n cydymffurfio â'r gofynion ychwanegol hyn yn ystod blwyddyn galendr 2024 yn euog o drosedd ac yn agored i gollfarn ddiannod, neu, yn dilyn collfarn ar dditiad, i ddirwy, fel y darperir ar ei gyfer o dan Reoliad 46 o Reoliadau 2021.

## Y weithdrefn

Negyddol

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Caiff y Senedd ddirymu'r Rheoliadau o fewn 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddyddiau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) mewn cyfnod o doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'u gosodwyd gerbron y Senedd.

## Materion technegol: craffu

Nodwyd tri phwynt i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn cysylltiad â'r offeryn hwn.

1. **Rheol Sefydlog 21.2(vii) – ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg yr offeryn neu'r drafft**

Yn yr Atodlen, yn yr Atodlen 1A newydd, ym mharagraff 1, mae gwahaniaeth rhwng y testun Cymraeg a'r testun Saesneg. Yn y testun Saesneg, cyfeirir at "the occupier of a qualifying

grassland holding", ond ystyr y cyfieithiad yw "the holder of a qualifying grassland holding". Mewn mannau eraill yn y Rheoliadau presennol ac yn y diwygiadau newydd, defnyddiwyd "meddiannydd" ("occupier") yn gywir yn y testun Cymraeg, yn hytrach na "deiliad" ("holder") i gyfieithu "occupier".

**2. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol**

Yn yr Atodlen, yn yr Atodlen 1A newydd, mae strwythur paragraff 11 yn anghywir am fod "11-(1)" ar y dechrau. Mae hyn yn creu disgwyliad yn y darllenydd y bydd is-baragraff (1) yn cael ei ddilyn gan is-baragraff (2). Ond nid oes is-baragraff (2) felly dylid ei strwythuro fel "11", yn hytrach nag "11-(1)". Ceir enghraifft o ddarpariaeth sydd wedi'i strwythuro'n gywir yn ddiweddarach ym mharagraff 20.

**3. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol**

Yn yr Atodlen, yn Atodlen 1A newydd, ym mharagraff 12(2), ceir cyfeiriad a ddisgrifir yn anghywir fel "[p]aragraff (1)(a) neu (b)". Ond dylid disgrifio'r cyfeiriad yn gywir fel "is-baragraff (1)(a) neu (b)" (gweler y canllawiau perthnasol am gyfeiriadau cyfansawdd yn *Drafftio Deddfau i Gymru* 6.16).

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd dau bwynt i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn cysylltiad â'r offeryn hwn.

**4. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Nodwn y canlynol yn rhan 5 o'r Memorandwm Esboniadol mewn perthynas ag ymgynghori ar y Rheoliadau hyn:

> *"23. Cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad ffurfiol ar gynigion i gyflwyno cynllun trwyddedu, lle y byddai busnesau fferm yn gweithio yn unol â therfyn blynyddol ar nitrogen mewn tail da byw sy'n pori ar gyfer daliad o 250kg/ha, yn dibynnu ar yr angen ar gnydau ac ystyriaethau cyfreithiol eraill. Parodd yr ymgynghoriad am 12 wythnos, o 25 Tachwedd 2022 i 17 Chwefror 2023.*
>
> *24. Ar 10 Hydref 2023 gwnaethom gyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ffurfiol. Mae'r crynodeb hwn, ynghyd â'r ddogfen ymgynghori, ar gael yn: https://llyw.cymru/rheoli-maethynnau-rheolir-defnydd-cynaliadwy-o-dail-da-byw*
>
> *25. Gan fod y Rheoliadau yn darparu diwygiad ac iddo derfyn amser sy'n debyg i'r cynigion yr ymgynghorwyd arnynt yn flaenorol, ac nad ydynt yn adlewyrchu newid ym mholisi Llywodraeth Cymru, ni chynhaliwyd ymgynghoriad ffurfiol pellach."*

5. **Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Nodwn fod y Rheoliadau hyn i'w dirymu gan Reoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 4) 2023, a ddaw i rym ar 31 Rhagfyr 2023. Nodwn ymhellach yr esboniad a ganlyn mewn llythyr gan Lesley Griffiths AS, y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, at y Llywydd ar 15 Rhagfyr 2023:

> *"Y rheswm dros beidio â chydymffurfio â'r confensiwn 21 diwrnod yn yr achos hwn yw, os na fydd Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 4) 2023 yn dod i rym ar neu cyn 31 Rhagfyr 2023, yna bydd Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 3) 2023 yn dod i rym ar 1 Ionawr 2024 heb roi'r eglurder, hygyrchedd na'r sicrwydd cyfreithiol mwyaf i ddefnyddwyr terfynol ynghylch dodi cyfuniad o dail da byw sy'n pori a thail da byw nad ydynt yn pori."*

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â phwyntiau adrodd 1, 2 a 3.

## Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 8 Ionawr 2024 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd uchod.

**Ymateb y Llywodraeth: *Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 3) 2023***

<u>Pwyntiau Craffu Technegol 1-3</u>: Mae Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 3) 2023 wedi eu dirymu a'u disodli gan Reoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 4) 2023.

Fodd bynnag, mae'r un pwyntiau adrodd hyn wedi eu hystyried yn ymateb y Llywodraeth i adroddiad y Pwyllgor ar Reoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 4) 2023.

# SL(6)436 – Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 4) 2023

## Cefndir a diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021 (O.S. 2021/77 (Cy. 20)) ("Rheoliadau 2021"), a disgwylir iddynt fod i ddod i rym ar 31 Rhagfyr 2023.

Mae'r Rheoliadau hyn yn gweithredu'r ail gam mewn proses dau gam ar gyfer cyflwyno cyfundrefn rheoli maethynnau uwch ar gyfer blwyddyn galendr 2024, ar gyfer daliadau neu ran o ddaliadau nad oeddent yn flaenorol wedi'u lleoli o fewn Parth Perygl Nitradau ("PPN") ac sydd wedi'u hau ag o leiaf 80% o laswellt (a ddiffinnir yn y Rheoliadau hyn fel "daliadau glaswelltir cymhwysol").

Mae rheoliad 3 yn diwygio rheoliad 2 (mesurau trosiannol ar gyfer daliadau nad oeddent gynt mewn parth perygl nitradau) o Reoliadau 2021. Mae'n newid y dyddiad gweithredu ar gyfer rheoliad 4 (dodi tail da byw – y terfyn o ran cyfanswm y nitrogen ar gyfer yr holl ddaliad) o 1 Ionawr 2024 i 1 Ionawr 2025 ar gyfer daliadau neu rannau o ddaliadau nad oeddent gynt wedi eu lleoli o fewn PPN fel y'i dangosir ar y map mynegai PPN, pan fo 80% neu fwy o'r ardal amaethyddol wedi ei hau â phorfa ("daliadau glaswelltir cymhwysol"). Mae hyn yn golygu nad yw'r terfyn o ran cyfanswm y nitrogen mewn tail da byw ar gyfer yr holl ddaliad (170kg wedi ei luosi ag arwynebedd y daliad mewn hectarau) yn rheoliad 4 o Reoliadau 2021 yn gymwys i ddaliadau glaswelltir cymhwysol hyd 1 Ionawr 2025.

Mae rheoliad 4 yn diwygio rheoliad 3 (dehongli) o Reoliadau 2021 drwy fewnosod diffiniadau o'r termau "cynllun rheoli maetholion uwch", "cyfarpar taenu manwl", "daliad glaswelltir cymhwysol" a "cyfnod perthnasol". Mae hefyd yn rhoi diffiniad o "CNC" yn lle "CANC".

Mae rheoliad 5 yn mewnosod rheoliadau newydd 4A a 4B yn Rheoliadau 2021. Mae rheoliad 4A (dodi tail da byw sy'n pori a da byw nad ydynt yn pori ar ddaliadau glaswelltir cymhwysol yn ystod y cyfnod perthnasol) yn ei gwneud yn ofynnol i feddiannydd daliad glaswelltir cymhwysol sicrhau, ar gyfer blwyddyn galendr 2024 ("y cyfnod perthnasol"), fod arwynebedd y daliad (mewn hectarau) yn fwy na swm neu'n hafal i swm cyfanswm y nitrogen mewn tail da byw sy'n pori a ddodir ar y daliad wedi ei rannu â 250, plws cyfanswm y nitrogen mewn tail da byw nad ydynt yn pori a ddodir ar y daliad wedi ei rannu â 170. Diben y cyfrifiad hwn yw cyfyngu ar gyfanswm y nitrogen mewn tail da byw y caiff meddiannydd glaswelltir cymhwysol ei ddodi ar y daliad, boed yn uniongyrchol gan anifail neu drwy daenu, yn ystod y cyfnod perthnasol. Mae'n sicrhau, pan nad yw meddiannydd daliad glaswelltir cymhwysol ond yn dodi tail da byw sy'n pori ar y daliad, na chaiff ddodi mwy na 250kg o nitrogen mewn tail da byw sy'n pori fesul hectar yn ystod y cyfnod perthnasol. Mae hefyd yn sicrhau, pan nad yw

meddiannydd daliad glaswelltir cymhwysol ond yn dodi tail da byw nad ydynt yn pori ar y daliad, na chaiff ddodi mwy na 170kg o nitrogen mewn tail da byw nad ydynt yn pori fesul hectar yn ystod y cyfnod perthnasol. Pan fo meddiannydd daliad glaswelltir cymhwysol yn dodi tail da byw sy'n pori a thail da byw nad ydynt yn pori ar y daliad yn ystod y cyfnod perthnasol, mae'r cyfrifiad hefyd yn gwneud darpariaeth ar gyfer addasu dodi'r naill a'r llall ar sail pro-rata.

Mae rheoliad 4A(2) yn darparu bod rhaid i feddiannydd daliad glaswelltir cymhwysol, pan fo'n bwriadu dodi ar y daliad, yn ystod y cyfnod perthnasol, gyfanswm o nitrogen mewn tail da byw sy'n pori sy'n fwy na 170kg wedi ei luosi ag arwynebedd y daliad mewn hectarau, gydymffurfio â gofynion uwch ychwanegol o ran rheoli maethynnau a bennir o dan Atodlen 1A (gofynion rheoli maethynnau uwch) a hysbysu Cyfoeth Naturiol Cymru ("CNC"). Mae rheoliad 4B (gofynion hysbysu) yn nodi'r gofynion hysbysu y mae rhaid i feddiannydd daliad glaswelltir cymhwysol gydymffurfio â hwy pan fydd yn hysbysu CNC.

Mae rheoliad 6 yn gwneud mân ddiwygiadau i reoliad 14 (taenu tail organig ger dŵr wyneb, tyllau turio, ffynhonnau neu bydewau) o Reoliadau 2021 i gynorthwyo gydag eglurder.

Mae rheoliad 7 yn rhoi cyfeiriadau at "CNC" yn lle cyfeiriadau at "CANC" ym mha le bynnag y maent yn ymddangos yn y Rheoliadau. Mae hyn o ganlyniad i roi diffiniad o "CNC" yn lle'r diffiniad o "CANC" o dan reoliad 3.

Mae rheoliad 8 yn mewnosod Atodlen newydd 1A (gofynion rheoli maethynnau uwch) yn Rheoliadau 2021 sy'n nodi'r gofynion rheoli maethynnau uwch ychwanegol sydd i'w bodloni gan feddiannydd daliad glaswelltir cymhwysol os yw'r meddiannydd yn bwriadu dodi ar y daliad, yn ystod y cyfnod perthnasol, gyfanswm o nitrogen mewn tail da byw sy'n pori sy'n fwy na 170kg wedi ei luosi ag arwynebedd y daliad mewn hectarau.

Mae rheoliad 9 yn dirymu Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 3) 2023, y disgwyliwyd iddynt ddod i rym ar 1 Ionawr 2024.

Bydd y gofynion rheoli maethynnau uwch ychwanegol a nodir yn y Rheoliadau hyn yn gymwys i feddianwyr daliadau glaswelltir cymhwysol, yn ogystal â'r gofynion sydd eisoes yn berthnasol i feddianwyr o'r fath yn rhinwedd Rhannau 2 i 7 o Reoliadau 2021. Hefyd, bydd unrhyw feddiannydd daliad nad yw'n cydymffurfio â'r gofynion ychwanegol hyn yn ystod blwyddyn galendr 2024 yn euog o drosedd ac yn agored i gollfarn ddiannod, neu, yn dilyn collfarn ar dditiad, i ddirwy, fel y darperir ar ei gyfer o dan Reoliad 46 o Reoliadau 2021.

## Y weithdrefn

Negyddol

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Caiff y Senedd ddirymu'r Rheoliadau o fewn 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddyddiau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) mewn cyfnod o doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'u gosodwyd gerbron y Senedd.

## Materion technegol: craffu

Nodwyd tri phwynt i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn cysylltiad â'r offeryn hwn.

1. **Rheol Sefydlog 21.2(vii) – ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg yr offeryn neu'r drafft**

Yn yr Atodlen, yn yr Atodlen 1A newydd, ym mharagraff 1, mae gwahaniaeth rhwng y testun Cymraeg a'r testun Saesneg. Yn y testun Saesneg, cyfeirir at "the occupier of a qualifying grassland holding", ond ystyr y cyfieithiad yw "the holder of a qualifying grassland holding". Mewn mannau eraill yn y Rheoliadau presennol ac yn y diwygiadau newydd, defnyddiwyd "meddiannydd" ("occupier") yn gywir yn y testun Cymraeg, yn hytrach na "deiliad" ("holder") i gyfieithu "occupier".

2. **Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol**

Yn yr Atodlen, yn yr Atodlen 1A newydd, mae strwythur paragraff 10 yn anghywir am fod "10-(1)" ar y dechrau. Mae hyn yn creu disgwyliad yn y darllenydd y bydd is-baragraff (1) yn cael ei ddilyn gan is-baragraff (2). Ond nid oes is-baragraff (2) felly dylid ei strwythuro fel "10", yn hytrach na "10-(1)". Ceir enghraifft o ddarpariaeth sydd wedi'i strwythuro'n gywir yn ddiweddarach ym mharagraff 20.

3. **Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol**

Yn yr Atodlen, yn Atodlen 1A newydd, ym mharagraff 11(2), ceir cyfeiriad a ddisgrifir yn anghywir fel "[p]aragraff (1)(a) neu (b)". Ond dylid disgrifio'r cyfeiriad yn gywir fel "is-baragraff (1)(a) neu (b)" (gweler y canllawiau perthnasol am gyfeiriadau cyfansawdd yn *Drafftio Deddfau i Gymru* 6.16).

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd dau bwynt i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn cysylltiad â'r offeryn hwn.

4. **Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Nodwn y canlynol yn rhan 5 o'r Memorandwm Esboniadol mewn perthynas ag ymgynghori ar y Rheoliadau hyn:

> *"26. Cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad ffurfiol ar gynigion i gyflwyno cynllun trwyddedu, lle y byddai busnesau fferm yn gweithio yn unol â therfyn blynyddol ar nitrogen mewn tail da byw sy'n pori ar gyfer daliad o 250kg/ha, yn dibynnu ar yr angen ar gnydau ac ystyriaethau cyfreithiol eraill. Parodd yr ymgynghoriad am 12 wythnos, o 25 Tachwedd 2022 i 17 Chwefror 2023.*

*27. Ar 10 Hydref 2023 gwnaethom gyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ffurfiol. Mae'r crynodeb hwn, ynghyd â'r ddogfen ymgynghori, ar gael yn: https://llyw.cymru/rheoli-maethynnau-rheolir-defnydd-cynaliadwy-o-dail-da-byw*

*28. Gan fod y Rheoliadau yn darparu diwygiad ac iddo derfyn amser sy'n debyg i'r cynigion yr ymgynghorwyd arnynt yn flaenorol, ac nad ydynt yn adlewyrchu newid ym mholisi Llywodraeth Cymru, ni chynhaliwyd ymgynghoriad ffurfiol pellach."*

5. **Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Nodwn y torrwyd y confensiwn 21 diwrnod (h.y. y confensiwn y dylai 21 diwrnod fynd heibio rhwng y dyddiad y gosodir offeryn "gwneud negyddol" gerbron y Senedd a'r dyddiad y daw'r offeryn i rym), a'r esboniad am dorri'r confensiwn a gynigiodd Lesley Griffiths AS, y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, mewn llythyr at y Llywydd ar 15 Rhagfyr 2023.

Yn benodol, nodwn yr esboniad a ganlyn:

*"Y rheswm dros beidio â chydymffurfio â'r confensiwn 21 diwrnod yn yr achos hwn yw, os na fydd Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 4) 2023 yn dod i rym ar neu cyn 31 Rhagfyr 2023, yna bydd Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 3) 2023 yn dod i rym ar 1 Ionawr 2024 heb roi'r eglurder, hygyrchedd na'r sicrwydd cyfreithiol mwyaf i ddefnyddwyr terfynol ynghylch dodi cyfuniad o dail da byw sy'n pori a thail da byw nad ydynt yn pori."*

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â phwyntiau adrodd 1, 2 a 3.

## Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 8 Ionawr 2024 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd uchod.

**Ymateb y Llywodraeth: *Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 4) 2023***

<u>Pwyntiau Craffu Technegol 1-3:</u> Mae Llywodraeth Cymru yn diolch i’r Pwyllgor am dynnu ein sylw at y pwyntiau adrodd hyn. Rydym mewn cysylltiad â Chofrestrydd yr OSau ynghylch y posibilrwydd o lunio Slip Cywiro i ymdrin â’r pwyntiau hyn cyn gynted ag y bo modd.

# SL(6)427 – Rheoliadau'r Proffesiwn Rheolaeth Adeiladu (Taliadau) (Cymru) 2023

## Cefndir a diben

Mae Rhan 2A o Ddeddf Adeiladu 1984 (**Deddf 1984**) yn darparu ar gyfer rheoleiddio'r proffesiwn rheolaeth adeiladu a goruchwylio'r rhai sy'n arfer swyddogaethau yn y maes hwn. Nod Rhan 2A yw gwella lefelau cymhwysedd ac atebolrwydd yn y sector rheolaeth adeiladu drwy greu strwythur prof fesiynol a rheoleiddiol unedig ar gyfer rheolaeth adeiladu.

Mae Deddf 1984 hefyd yn cynnwys pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau ar gyfer adennill taliadau am gyflawni swyddogaethau ac mewn cysylltiad â chyflawni swyddogaethau o dan Ddeddf 1984. Gwneir y Rheoliadau hyn o dan y pŵer hwnnw, sy'n caniatáu i Weinidogion Cymru adennill taliadau am swyddogaethau a gyflawnir o dan Ddeddf 1984 (**swyddogaethau y gellir codi tâl amdanynt**), fel: penderfynu ar geisiadau i gofrestru person yn arolygydd adeiladu cofrestredig neu yn gymeradwywr rheolaeth adeiladu; cynnal ymchwiliadau camymddwyn proffesiynol; ymateb i apelau.

## Y weithdrefn

Negyddol

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Gall y Senedd ddirymu'r Rheoliadau o fewn 40 niwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu, neu (ii) mewn cyfnod o doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'u gosodwyd gerbron y Senedd.

## Materion technegol: craffu

Nodwyd y tri phwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol**

Mae rheoliad 3(2) yn nodi rhestr o swyddogaethau y gellir codi tâl amdanynt. Mae rheoliad 3(2)(c) i (e) yn cyfeirio at "gamau" a gymerir mewn perthynas â swyddogaethau penodol, tra bod rheoliad 3(2)(f) i (g) yn cyfeirio at "unrhyw gamau" a gymerir mewn perthynas â swyddogaethau penodol eraill.

Nid yw'n glir a fwriedir i "gamau" ac "unrhyw gam" fod ag ystyron gwahanol. Os bwriedir iddynt fod yn wahanol, beth yw'r gwahaniaeth? Os na fwriedir iddynt fod yn wahanol, pam y defnyddir termau gwahanol?

**2. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol**

Mae rheoliad 6(1) yn nodi bod yn rhaid i berson dalu taliadau penodol os oes gan Weinidogion Cymru "sail resymol" dros gredu y gall y person fod yn torri Rhan 2A o Ddeddf Adeiladu 1984. Mae rheoliad 6(1), felly, yn benodol yn ei gwneud yn ofynnol i'r seiliau fod yn rhesymol.

Mewn mannau eraill yn y Rheoliadau, fodd bynnag, nid oes gofyniad penodol i fod yn rhesymol. Er enghraifft:

- Yn rheoliad 3(2)(c), mae swyddogaeth y gellir codi tâl amdani yn cynnwys "camau" a gymerir gan Weinidogion Cymru o dan adran 58H o Ddeddf Adeiladu 1984. Nid yw rheoliad 3(2)(c) yn nodi "camau rhesymol".
- Yn rheoliad 4(2), mae cyfeiriad at y "costau" y mae Gweinidogion Cymru yn mynd iddynt. Nid yw rheoliad 4(2) yn nodi "costau rhesymol".

Fel mater o gyfraith gyhoeddus, rhaid i Weinidogion Cymru weithredu'n rhesymol bob amser, felly nid yw'n glir pam fod angen i reoliad 6(1) gyfeirio at fod Gweinidogion Cymru yn rhesymol.

Byddem yn croesawu eglurhad gan Lywodraeth Cymru ynghylch ei dull o gynnwys "rhesymol" mewn darpariaethau deddfwriaethol fel y rhai a amlinellir uchod.

**3. Rheol Sefydlog 21.2(vii) – ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg yr offeryn neu'r drafft**

Yn y rheoliad 8(2)(a) Saesneg, rhaid i gais am daliadau gynnwys:

> "datganiad o'r gwaith a wnaed a'r costau y mae Gweinidogion Cymru wedi mynd iddynt **wrth gyflawni swyddogaeth y gellir codi tâl amdani**" (ein pwyslais ni).

Mae'r geiriau a bwysleisir, fodd bynnag, ar goll o'r rheoliad 8(2)(a) Cymraeg.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**4. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Mae'r Rheoliadau'n cyfeirio at y dogfennau a ganlyn:

- cynllun codi tâl (rheoliad 4),
- cod ymddygiad (rheoliad 6(4)(a)),

- rheolau ymddygiad proffesiynol (rheoliad 6(4)(b),
- rheolau safonau gweithredol (rheoliad 6(4)(b)).

Byddem yn ddiolchgar pe gallai Llywodraeth Cymru gadarnhau statws presennol y dogfennau hyn, gan gynnwys manylion ynghylch ble y byddant ar gael, a chadarnhau bod pob dogfen wedi'i gwneud yn derfynol a'i bod ar gael yn hawdd ers y daeth y Rheoliadau i rym ar 1 Ionawr 2024.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru i bob un o'r pwyntiau adrodd.

## Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 8 Ionawr 2024 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd uchod.

**Ymateb y Llywodraeth: *Rheoliadau'r Proffesiwn Rheolaeth Adeiladu (Taliadau) (Cymru) 2023***

**Pwynt Craffu Technegol 1:** Mae "camau" wedi ei ddefnyddio wrth gyfeirio at adrannau penodol, tra bod "unrhyw gam" wedi ei ddefnyddio pan fo'r cyfeiriad yn ehangach e.e. cyfeiriad at Ran 2A yn fwy cyffredinol. Dim ond adlewyrchu natur ehangach y swyddogaethau yn rheoliad 2(f) ac (g) a wna'r "unrhyw gam".

**Pwynt Craffu Technegol 2:** Rhaid i Weinidogion Cymru weithredu'n rhesymol wrth gwrs. Ystyrir bod cynnwys "resymol" yn rheoliad 6(1) yn ddefnyddiol o safbwynt eglurder y gyfraith h.y., mae'n gwbl eglur i'r darllenydd fod rhaid i gred Gweinidogion Cymru fod yn seiliedig ar sail resymol.

**Pwynt Craffu Technegol 3:** Diolch am nodi'r hepgoriad. Mae'r geiriad coll yn ceisio egluro ymhellach ystyr "datganiad o'r gwaith a wnaed a'r costau y mae Gweinidogion Cymru wedi mynd iddynt" ond nid yw ynddo'i hun yn effeithio ar ba wybodaeth y mae rhaid ei darparu i'r talai, ac fel y cyfryw nid yw Llywodraeth Cymru yn ystyried bod hyn yn effeithio ar weithrediad y ddarpariaeth.

Byddwn yn mewnosod y geiriad coll yn y rheoliad Cymraeg pan fydd y Rheoliadau yn cael eu diweddaru nesaf. Nid oes gennym amserlen ar gyfer hyn ar hyn o bryd.

**Pwynt Craffu ar Rinweddau 4:** Mae'r Cod Ymddygiad, y Rheolau Ymddygiad Proffesiynol a'r Rheolau Safonau Gweithredol wedi eu cyhoeddi ar-lein ac maent ar gael ar: https://www.llyw.cymru/safonau-codau-rheolau-ar-gyfer-y-proffesiwn-rheoli-adeiladu

Noder bod y dogfennau hyn wedi eu cyhoeddi ar ffurf ddrafft ar hyn o bryd. Cyhoeddir fersiynau terfynol cyn ei gwneud yn orfodol i arolygwyr adeiladu a chymeradwywr rheolaeth adeiladu, y mae'r rheoliadau hyn yn ymwneud â hwy, gael eu cofrestru ym mis Ebrill 2024.

Nid yw'r cynllun codi tâl wedi ei gyhoeddi eto. Caiff ei gyhoeddi ar-lein ar ei ffurf derfynol cyn i'r cofrestrau ar gyfer arolygwyr adeiladu a chymeradwywr rheolaeth adeiladu agor yng Nghymru. Bwriedir i hyn ddigwydd ym mis Ionawr 2024.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Estyn Cyfnodau Trosiannol) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2024** |
| **DYDDIAD** | **10 Ionawr 2024** |
| **GAN** | **Lesley Griffiths AS/MS** |

Bydd Aelodau o'r Senedd yn dymuno cael gwybod fy mod wedi rhoi cydsyniad i'r Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig arfer pŵer gwneud is-ddeddfwriaeth mewn maes datganoledig mewn perthynas â Chymru.

Gosodwyd yr Offeryn Statudol (OS) uchod gerbron Senedd y DU gan yr Ysgrifennydd Gwladol ar 9 Ionawr 2024 drwy arfer pwerau a roddwyd gan:

1. paragraff 11A o Atodlen 2 i Reoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol 2011;
2. Erthyglau 144(6) o Reoliad (EU) 2017/625 Senedd Ewrop a'r Cyngor, a pharagraffau 2 a 3 o'r Atodiad i'r Rheoliad hwnnw, sy'n ymdrin â rheolaethau swyddogol a gweithgareddau swyddogol eraill a gyflawnir er mwyn sicrhau bod y gyfraith ar fwyd a bwyd anifeiliaid, rheolau ar iechyd a lles anifeiliaid, iechyd planhigion a chynhyrchion diogelu planhigion yn cael ei chymhwyso.

Yr OS fydd y darn cyntaf o ddeddfwriaeth i weithredu carreg filltir gyntaf Model Gweithredu Targed y Ffin (TOM) o 31 Ionawr 2024 ymlaen. Pwrpas yr OS yw cyflwyno ardystiadau iechyd wrth fewnforio cynhyrchion anifeiliaid, planhigion, a chynhyrchion planhigion sy'n ganolig eu risg, a bwyd a bwyd anifeiliaid uchel eu risg nad ydynt yn dod o anifeiliaid, o'r Undeb Ewropeaidd. Bydd hefyd yn dileu'r esemptiad rhag-hysbysu ar gyfer nwyddau o ynys Iwerddon sy'n gynhyrchion anifeiliaid, planhigion a chynhyrchion planhigion canolig eu risg. Yn ogystal, bydd yn diwygio dyddiad terfynu'r Cyfnod Graddoli Trosiannol (TSP), o 31 Ionawr 2024 tan 29 Ebrill 2024 er mwyn i ail gam Model Gweithredu Targed y Ffin fedru dechrau o 30 Ebrill 2024 ymlaen. Nid ydym wedi cytuno eto ar ddyddiad ar gyfer dechrau cynnal gwiriadau ffisegol ar fewnforion o Iwerddon, felly rwy'n rhagweld y bydd angen estyn y Cyfnod Graddoli Trosiannol unwaith yn rhagor, o ddiwedd mis Ebrill tan ddyddiad y cytunir arno.

Gosodwyd y Rheoliadau gerbron Senedd y DU ar 9 Ionawr 2024 a byddant yn dod i rym ar 30 Ionawr 2024.

**Unrhyw effaith y gall yr OS ei chael ar gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd a/neu ar gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru:**

Mae Rheoliadau 2024 yn deillio o'r cytundeb ar y Model Gweithredu Targed y Ffin a gyhoeddwyd ym mis Awst 2023. Nid yw Rheoliadau 2024 yn ymrwymo Gweinidogion Cymru i fabwysiadu unrhyw safbwynt a fydd gan Lywodraeth y DU ar fioddiogelwch yn y dyfodol.

Nid yw'r Rheoliadau'n lleihau nac yn tanseilio pwerau Gweinidogion Cymru mewn unrhyw ffordd, ac nid ydynt yn creu, diwygio nac yn dileu unrhyw swyddogaethau a roddwyd i Weinidogion Cymru.

Hoffwn sicrhau'r Senedd mai polisi Llywodraeth Cymru fel arfer yw deddfu dros Gymru ar faterion sydd o fewn cymhwysedd datganoledig. Fodd bynnag, o dan rai amgylchiadau, mae manteision mewn cydweithio â Llywodraeth y DU pan fo sail resymegol glir dros wneud hynny. Y tro hwn, rwyf wedi rhoi fy nghydsyniad i'r Rheoliadau hyn er mwyn sicrhau effeithlonrwydd a hwylustod wrth newid polisi yn y dyfodol, er mwyn cydymffurfio â rhwymedigaethau rhyngwladol, cydgysylltu gwaith ar draws y DU, ac er cysondeb.

**Diben yr offeryn**

Pwrpas Rheoliadau 2024 yw amddiffyn bioddiogelwch, sicrhau bod bwyd yn ddiogel a chefnogi masnach, drwy gyflwyno carreg filltir gyntaf Model Gweithredu Targed y Ffin y cytunwyd arno gan bob un o weinyddiaethau Prydain Fawr.

Mae'r Rheoliadau a'r Memorandwm Esboniadol cysylltiedig, sy'n nodi manylion tarddiad, diben ac effaith Rheoliadau 2924, ar gael yma.

https://www.legislation.gov.uk/uksi/2024/20/made

**Pam y rhoddwyd cydsyniad**

Rhoddwyd cydsyniad i Lywodraeth y DU wneud yr offeryn hwn o ganlyniad i'r cytundeb rhwng y tair gweinyddiaeth ym Mhrydain Fawr ar Fodel Gweithredu Targed y Ffin i gyflwyno cyfundrefn glanweithiol a ffytoiechydol cydlynol a chyson ar gyfer nwyddau a fewnforir i Brydain Fawr er mwyn amddiffyn bioddiogelwch a sicrhau bod safonau diogelwch bwyd yn cael eu cynnal.

**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru

10 Ionawr 2024

Annwyl Huw

**Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Estyn Cyfnodau Trosiannol) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2024**

Rwy'n ysgrifennu i roi gwybod i'r Pwyllgor fy mod wedi rhoi fy nghydsyniad i'r Gweinidog Gwladol dros Fioddiogelwch, Iechyd a Lles Anifeiliaid i osod Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Estyn Cyfnodau Trosiannol) (Diwygiadau Amrywiol) 2024.

Rwyf wedi gosod Datganiad Ysgrifenedig sydd i'w weld yma:
https://senedd.cymru/media/xg4j0gcv/ws-ld16248-w.pdf

Gwnaed y Rheoliadau hyn wedi'u gwneud gan ddefnyddio pwerau yn

1. paragraff 11A o Atodlen 2 i Reoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Cymru) 2011;
2. Erthyglau 144(6) o Reoliadau Rheolaethau Swyddogol (UE) 2017/625 a pharagraffau 2 a 3 o Atodiad 6 i'r Rheoliadau hynny.

Rhoddwyd cydsyniad i Lywodraeth y DU wneud y Rheoliadau hyn ar ôl i Fodel Gweithredu Targed y Ffin (TOM) gael ei gyhoeddi. Yr offeryn statudol hwn fydd y darn cyntaf o ddeddfwriaeth i weithredu carreg filltir gyntaf Model Gweithredu Targed y Ffin (TOM) o 31 Ionawr 2024 ymlaen. Pwrpas yr OS yw cyflwyno ardystiadau iechyd wrth fewnforio cynhyrchion anifeiliaid, planhigion a chynhyrchion planhigion canolig eu risg, a bwyd a bwyd anifeiliaid uchel eu risg nad ydynt yn dod o anifeiliaid, o'r Undeb Ewropeaidd. Mae'r newid hwn yn cynnwys diwygiad i Reoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Cymru) 2011. Bydd hefyd yn dileu'r esemptiad rhag-hysbysu ar gyfer nwyddau o ynys Iwerddon sy'n gynhyrchion anifeiliaid, planhigion a chynhyrchion planhigion canolig eu risg.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn y Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth Gymraeg sy'n dod i law yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Yn ogystal, bydd yn diwygio dyddiad terfynu’r Cyfnod Graddoli Trosiannol (TSP), o 31 Ionawr 2024 tan 29 Ebrill 2024 er mwyn i ail gam Model Gweithredu Targed y Ffin fedru dechrau o 30 Ebrill 2024 ymlaen.   Nid ydym wedi cytuno eto ar ddyddiad ar gyfer dechrau cynnal gwiriadau ffisegol ar fewnforion o Iwerddon, felly rwy'n rhagweld y bydd angen estyn y Cyfnod Graddoli Trosiannol unwaith yn rhagor, o ddiwedd mis Ebrill tan ddyddiad y cytunir arno.

Defnyddiwyd y weithdrefn negyddol ar gyfer yr Offeryn Statudol, cafodd ei osod gerbron Senedd y Deyrnas Unedig ar 9 Ionawr 2024, a bydd yn dod i rym ar 30 Ionawr 2024.

Hoffwn sicrhau'r Pwyllgor mai polisi Llywodraeth Cymru fel arfer yw deddfu dros Gymru mewn materion lle mae cymhwysedd wedi ei ddatganoli ond er hynny, o dan rai amgylchiadau, mae manteision mewn cydweithio â Llywodraeth y DU pan fo sail resymegol glir dros wneud hynny.

Mae'r newid i Reoliadau Masnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Cysylltiedig (Cymru) 2011 yn adlewyrchu'r newid a wnaed gan yr Ysgrifennydd Gwladol i'r Rheoliadau cyfatebol yn yr Alban a Lloegr, er mwyn creu un diwygiad, hygyrch a dwyieithog. Y tro hwn, felly, rwyf wedi rhoi fy nghydsyniad i'r Rheoliadau hyn er mwyn sicrhau effeithlonrwydd a hwylustod wrth newid polisi yn y dyfodol, er mwyn cydymffurfio â rhwymedigaethau rhyngwladol, cydgysylltu gwaith ar draws y DU, ac er cysondeb.

Mae'n ddrwg gennyf nad oedd modd rhoi rhybudd ymlaen llaw i'r Pwyllgor gan fod yr offeryn statudol wedi dod i law yn ystod y toriad.

Rwy'n anfon llythyr tebyg at Paul Davies AS, Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig.

Yn gywir,

Lesley Griffiths

**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a’r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

**Rebecca Evans AS/MS**
**Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol**
**Minister for Finance and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Our ref:

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd – Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

9 Ionawr 2024

Annwyl Huw,

**Bil Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru)**

Yn dilyn adolygiad o drawsgrifiad sesiwn dystiolaeth y Bil Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) a gynhaliwyd gan y Pwyllgor ar 11 Rhagfyr 2023, mae wedi dod i'n sylw y dylid egluro dau fater.

Mae'r mater cyntaf yn ymwneud â'r datganiad a gofnodwyd ym mharagraff 79 o'r trawsgrifiad. Dywedwyd "the new paragraph 8C would be a power to amend some of the reliefs and exemptions". Roedd y cyfeiriad at esemptiadau yn anghywir gan fod y pŵer ym mharagraff 8C newydd o Atodlen 4ZA yn ymwneud â rhyddhad yn unig. Mae'r paragraff 8C newydd i'w gael yn adran 5 (pwerau i roi, amrywio a thynnu rhyddhad yn ôl) o'r Bil.

Mae'r ail fater yn ymwneud â'r datganiad a gofnodwyd ym mharagraff 84 o'r trawsgrifiad. Dywedwyd y byddai caniatâd y Brenin yn cael ei geisio mewn perthynas â rhyddhadau ac esemptiadau, adran 5. Mae adran 5 y Bil yn ymwneud â rhyddhad yn unig, felly ni ddylid bod wedi cyfeirio at esemptiadau yn yr achos hwn chwaith.

Yn gywir,

Rebecca Evans.

**Rebecca Evans AS/MS**
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol
Minister for Finance and Local Government

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth Gymraeg sy'n dod i law yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Mick Antoniw AS/MS**
**Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad**
**Counsel General and Minister for the Constitution**



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref qA1762325

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

19 Rhagfyr 2023

Annwyl Huw,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 28 Tachwedd yn gofyn am fwy o wybodaeth am y Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru), yn dilyn fy ymddangosiad yn y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ar 20 Tachwedd. Rwyf wedi rhoi'r manylion isod.

> *1. Gwnaethoch ddweud bod rhai o'r pwerau deddfu yn y Bil wedi'u cwtogi, yn enwedig mewn meysydd lle maent yn ymwneud â chreu troseddau. A allech chi egluro a wnaeth eich ystyriaeth chi o asesiad o'r effaith ar gyfiawnder yn ystod datblygiad y Bil arwain at unrhyw newidiadau i'w ddarpariaethau?*

Ystyriodd yr Asesiad o'r Effaith ar Gyfiawnder ar gyfer y Bil ddau faes lle cafodd troseddau eu creu neu eu heffeithio. Roedd hyn yn cynnwys y drosedd newydd a oedd yn rhan o ddarpariaethau sy'n rheoleiddio sut y gall trydydd partïon fynd i wariant a reolir yn ystod cyfnod rheoleiddiedig ac ailddrafftio'r drosedd dylanwad amhriodol i egluro a moderneiddio'r iaith. Rhannwyd yr Asesiad o'r Effaith ar Gyfiawnder gyda'r Weinyddiaeth Gyfiawnder a oedd yn cytuno â'n hasesiad na fyddai effaith y ddau newid yn cael unrhyw effaith neu effaith ddibwys ar y system gyfiawnder. Ni ystyriwyd unrhyw newidiadau i'r polisi. Byddai unrhyw reoliadau a ddatblygwyd o ganlyniad i'r pwerau rheoleiddio a gynhwysir yn y Bil yn destun Asesiad Effaith ar Gyfiawnder ar wahân ac ymgynghoriad â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder, lle rhagwelir y bydd y rheoliadau hynny'n effeithio ar y system gyfiawnder.

> *2. Er mai eich bwriad chi yw y bydd y Bwrdd Rheoli Etholiadol yn cynnal platfform gwybodaeth etholiadau Cymru, gwnaethoch ddweud nad ydych wedi nodi hynny ar wyneb y Bil oherwydd efallai y daw i'r amlwg y dylai corff mwy priodol ymgymryd â'r*

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN
Gohebiaeth.Mick.Antoniw@llyw.cymru
Correspondence.Mick.Antoniw@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

*swyddogaeth hon. A allech roi enghraifft o gorff o'r fath?*

Rydym o'r farn bod yr EMB yn debygol o fod yn westeiwr naturiol ar gyfer y platfform, fodd bynnag, nid yw'r EMB wedi'i sefydlu eto ac felly dylem gadw mewn cof y posibilrwydd na fydd yr EMB yn gallu cynnal y platfform, neu o well dewis arall yn cael ei nodi. O ystyried y bydd y gwesteiwr yn cael ei nodi yn y rheoliadau a wneir o dan adran 27, mae'n anochel y bydd y Senedd yn ystyried y gwesteiwr pan fydd yn ystyried y rheoliadau hynny.

Mae'r Bil wedi'i ddrafftio i'w gwneud yn glir y byddai Gweinidogion Cymru yn gyfrifol am sicrhau cynaliadwyedd unrhyw blatfform. Mae lle i westeiwr y platfform gael ei ailystyried yn y dyfodol, gan ystyried yr amgylchedd technolegol sy'n symud yn gyflym, y cyfle i ddysgu gwersi o brofiad, a barn yr EMB ei hun unwaith y bydd wedi'i sefydlu. Mae'r darpariaethau felly'n darparu hyblygrwydd ar gyfer y dyfodol, yn enwedig gwersi o werthusiadau etholiadau, tra'n sicrhau bod platfform yn cael ei ddarparu.

*3. Mae adran 5(4) yn darparu ar gyfer rheoliadau peilot i adlewyrchu'r darpariaethau cofrestru etholiadol heb geisiadau yn adran 3; fodd bynnag, nid yw gofyniad i beilota adran 3 yn golygu y daw'r adran honno i rym. A allech egluro a wnaethoch ystyried Mick Antoniw AS Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad gwneud y gallu i ddwyn adran 3 i rym yn amodol (er enghraifft, heb fod yn gynharach na phryd y daw o leiaf un peilot perthnasol ddod i ben), ac os felly, pam nad ydych yn gwneud hynny?*

Er fy mod yn credu y bydd treialu cofrestriad awtomatig yn arwain at y system orau bosibl ar gyfer yr etholwr, nid wyf yn credu y dylai'r Bil gynnwys darpariaeth sy'n atal cychwyn adran 3 yn benodol cyn i'r cynlluniau peilot cael eu cwblhau. Rwyf wedi ymrwymo i dreialu cofrestru awtomatig cyn cychwyn adran 3 a byddaf yn sicrhau bod y cynlluniau peilot hyn yn bwrw ymlaen â gwerthusiad llawn a phriodol cyn cyflwyno'r system. Felly, byddai cyfyngiad o'r fath nid yn unig yn ddiangen o ystyried fy ymrwymiad, ond byddai'n canolbwyntio ar gwblhau proses yn hytrach na gwerthusiad trylwyr a fydd yn llywio gweithrediad cofrestru awtomatig.

*4. Mae'n ymddangos y gall Gweinidogion Cymru ddefnyddio'r pŵer o dan adran 5 i dreialu'r darpariaethau cofrestru diwygiedig a gyflwynir gan adran 3(2); fodd bynnag, mae pŵer dilynol yn adran 8 i newid y pŵer yn adran 5(3). A allech egluro o dan ba amgylchiadau rydych yn rhagweld y pŵer hwnnw yn cael ei ddefnyddio?*

Mae'r pŵer o dan adran 8(1) yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau i ychwanegu at y rhestr o faterion etholiadol perthnasol yn adran 5(3) neu ddiwygio neu ddileu materion a ychwanegwyd yn flaenorol drwy reoliadau. Pwrpas y pŵer hwn yw caniatáu i faterion nad ydynt yn cael eu hystyried ar hyn o bryd gan Lywodraeth Cymru neu'r Senedd gael eu treialu o bosibl yn y dyfodol, yn amodol ar y prosesau craffu a gwerthuso a nodir yn y Bil. Dim ond o dan adran 8(1) y caniateir i reoliadau gael eu gwneud yn dilyn cymeradwyaeth y Senedd. Fodd bynnag, ni ellir defnyddio'r pŵer hwn i newid y system bleidleisio ar gyfer dychwelyd Aelodau Senedd, aelodau prif gyngor, neu aelodau cyngor cymuned.

*5. A allech egluro pam, yn rhinwedd adran 26 o'r Bil, yr ydych yn gwneud darpariaeth i newid y pŵer presennol i wneud rheoliadau yn adran 1 o Fesur Llywodraeth Leol*

*(Cymru) 2011 i fod yn bŵer i wneud cyfarwyddydau?*

Ar hyn o bryd mae Adran 1 y Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i gwestiynau a fformat yr arolwg gael eu nodi mewn rheoliadau. Mewn gwirionedd, mae hyn wedi golygu bod unrhyw newidiadau i'r arolwg, naill ai o ran cyflwyniad neu'r cwestiynau a gynhwysir, wedi golygu defnyddio pwerau rheoleiddio Gweinidogion Cymru. Mae hyn wedi denu beirniadaeth am yr hyblygrwydd i ddiwygio'r arolygon mewn modd amserol a'r dull deddfwriaethol anghymesur y bu'n rhaid ei fabwysiadu ym mhob achos.

Y dull a gynigir drwy'r Bil yw dileu'r gofyniad hwn a galluogi dull mwy hyblyg ac ystwyth o ystyried a phenderfyniadau ynghylch cynnwys a fformat yr arolwg. Mae'r dull hwn wedi cael ei groesawu gan bartneriaid, yn enwedig gan y bydd cwmpas yr arolwg a nodir yn y Mesur yn aros fel ag y mae ar hyn o bryd.

Mae'r Bil yn darparu bod arolygon yn y dyfodol yn cynnwys dwy ran. Y rhan gyntaf fydd cyfres graidd o gwestiynau a fydd yn berthnasol i bob awdurdod lleol yng Nghymru, gan ganiatáu i gymariaethau pwysig gael eu gwneud o ymatebion ar draws pob rhan o Gymru. Byddai'r ail ran yn ôl disgresiwn swyddogion canlyniadau, a all adlewyrchu'r cyd-destun a'r blaenoriaethau lleol.

*6. A allech egluro pa swyddogaethau rydych chi'n rhagweld y byddant yn cael eu rhoi i bersonau neu gategorïau o bersonau drwy reoliadau a wneir o dan adran 27(4), ac a allech chi egluro pam nad yw'r swyddogaethau hynny wedi'u cynnwys ar wyneb y Bil?*

Bydd y rheolau manwl sy'n sail i lwyfan gwybodaeth etholiadau Cymru yn cael eu nodi mewn rheoliadau a wneir o dan adran 27. Er mai bwriad y Llywodraeth yw y dylai Gweinidogion Cymru fod yn gyfrifol yn y pen draw am sicrhau bod y platfform yn cael ei sefydlu, bydd cyfranogiad rhanddeiliaid eraill yn hanfodol wrth sicrhau bod y platfform yn gweithredu'n llawn. Mae diben adran 27(4) yn adlewyrchu'r sefyllfa honno: yn ogystal â chael ei ddefnyddio i bennu gwesteiwr gweithredol y platfform, gall hefyd fod yn angenrheidiol ymgorffori elfennau o'r platfform yn elfennau presennol y broses etholiadol. Mae'r cydbwysedd rhwng yr hyn sydd ar wyneb y Bil a'r hyn bydd mewn rheoliadau yn sicrhau hyblygrwydd i ystyried y cyd-destun cyfreithiol a thechnolegol sy'n symud yn gyflym, gyda'r craffu priodol ar waith. Mae'r dull cytbwys wedi cael ei groesawu'n benodol gan sefydliadau cymdeithas sifil.

*7. A allech egluro pa swyddogaethau rydych chi'n rhagweld y byddant yn cael eu rhoi i bersonau drwy reoliadau a wneir o dan adran 29(8), ac a allech chi egluro pam nad yw'r swyddogaethau hynny wedi'u cynnwys ar wyneb y Bil?*

Mae Adran 29 o'r Bil yn darparu bod cynlluniau cymorth ariannol ar gael i grwpiau o bobl a ragnodir mewn rheoliadau sy'n ceisio sefyll am swydd etholedig. Bydd un cynllun o'r fath (adran 29(2)) ar gyfer pobl anabl, gan adeiladu ar y cynllun peilot Mynediad at Gronfa Swyddi Etholedig. Mae adran 29(1) yn galluogi Gweinidogion Cymru i roi cynlluniau eraill o'r fath ar waith pan fo tystiolaeth yn nodi rhwystrau rhag costau ychwanegol a brofir gan unigolion o grŵp penodol o bersonau heb gynrychiolaeth ddigonol sy'n eu hatal rhag sefyll am swydd etholedig.

Mae adran 29(8) yn darparu i Weinidogion Cymru nodi'r trefniadau manwl ar gyfer pob cynllun cymorth ariannol ar wahân gan gynnwys y rhai sydd i weinyddu'r cynllun, cydrannau'r cynllun a'r trefniadau adrodd sy'n ofynnol at ddibenion archwilio. Gan y bydd cynlluniau unigol yn targedu rhwystrau gwahanol rhag cymryd rhan, mae'n briodol bod y manylion wedi'u nodi mewn rheoliadau yn hytrach nag ar wyneb y Bil. Bydd hyn yn galluogi mwy o hyblygrwydd i sicrhau bod manylion pob cynllun yn sail i'w ddiben ac yn galluogi cymryd camau i fynd i'r afael â'r rhwystrau a nodwyd.

> *8. Mae’r pŵer i wneud rheoliadau yn adran 41 yn ddarostyngedig i’r weithdrefn negyddol. O ystyried y gellir defnyddio’r pŵer i ddiwygio deddfwriaeth sylfaenol, a allech chi egluro pam nad yw’n ddarostyngedig i’r weithdrefn gadarnhaol?*

Er bod swyddogion wedi gweithio'n agos gyda Chomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru (y Comisiwn) i sicrhau bod yr amserlenni ar gyfer cynnal adolygiadau fel y'u cyflwynwyd yn y Bil yn realistig, mae'r ddarpariaeth hon yn rhoi'r hyblygrwydd sydd ei angen ar Weinidogion Cymru i ddiwygio'r cyfnod adolygu (os oes angen) yng ngoleuni profiadau'r Comisiwn wrth gwblhau adolygiadau trefniadau etholiadol ar ôl i'r Bil gael Cydsyniad Brenhinol.

Mae gallu Gweinidogion Cymru i ddefnyddio'r ddarpariaeth gul hon i ddiwygio deddfwriaeth sylfaenol wedi'i gyfyngu i ddiwygio'r cyfnod adolygu. Nid yw'r pŵer hwn i wneud rheoliadau yn effeithio'n sylweddol ar ddarpariaethau Deddf Democratiaeth Llywodraeth Leol (Cymru) 2013, ac mae testun y pŵer yn fanylder cymharol fach yn y cynllun deddfwriaethol cyffredinol ar gyfer cynnal adolygiadau trefniadau etholiadol. Mae cynsail eisoes i Weinidogion Cymru newid y cyfnod adolygu sy'n berthnasol i'r Comisiwn drwy wneud rheoliadau sy'n ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol – gweler adrannau 138(6) a 174(6) o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 – ac felly rydym o'r farn bod defnyddio'r weithdrefn negyddol yn briodol ac yn gymesur.

> *9. Mae’n ymddangos bod pŵer gwneud rheoliadau newydd wedi’i gynnwys yn adran 51 o’r Bil nad yw’n ymddangos yn y tabl o bwerau dirprwyedig yn y Memorandwm Esboniadol. A allech ddisgrifio’r pŵer, sut y bydd yn cael ei ddefnyddio a’r rhesymau dros y weithdrefn a ddewiswyd?*

Ymddiheuraf am yr hepgoriad. Mae adran 51 yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddiwygio'r cyfnod adolygu ar gyfer cynnal adolygiadau trefniadau etholiadol cymunedol. Mae'n ddarpariaeth debyg i'r hyn a nodir yn adran 41 y Bil ac yn sicrhau cysondeb o ran dull rhwng y gwahanol fathau o adolygiadau.

Mae diwygio'r cyfnod adolygu ac ail-bennu dyddiad cychwyn cyfnod adolygu yn fanylion technegol a allai fod yn angenrheidiol pe bai tarfu ar raglen adolygu. Mae enghreifftiau o sefyllfaoedd a allai sbarduno'r defnydd o'r pŵer hwn yn cynnwys argyfwng iechyd cyhoeddus, newid yn y dyddiad ar gyfer etholiadau llywodraeth leol neu i ddarparu mwy o synergedd rhwng y cyfnodau adolygu ar gyfer trefniadau etholiadol prif ardal a chymuned.

Mae gallu Gweinidogion Cymru i ddefnyddio'r ddarpariaeth gul hon i ddiwygio deddfwriaeth sylfaenol yn gyfyngedig i ddiwygio'r cyfnod adolygu. Nid yw'r pŵer hwn i wneud rheoliadau yn effeithio'n sylweddol ar ddarpariaethau Deddf Democratiaeth Llywodraeth Leol (Cymru) 2013, ac mae testun y pŵer yn fanylder cymharol fach yn y cynllun deddfwriaethol cyffredinol ar gyfer cynnal adolygiadau trefniadau etholiadol cymunedol. Mae cynsail eisoes i Weinidogion Cymru newid y cyfnod adolygu sy'n berthnasol i'r Comisiwn drwy wneud

rheoliadau sy'n ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol – gweler adrannau 138(6) a 174(6) o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

Y bwriad yw y bydd y weithdrefn negyddol hefyd yn berthnasol i newidiadau i'r cyfnod adolygu, fel y mae'n berthnasol i'r Comisiwn, mewn rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru o dan adran 41 o'r Bil. Yn unol â hynny, rydym o'r farn bod defnyddio'r weithdrefn negyddol i wneud newidiadau i'r cyfnod adolygu ar gyfer adolygiadau trefniadau etholiadol cymunedol o dan adran 51 o'r Bil hefyd yn briodol ac yn gymesur, o ran gwneud hynny fel arall yn creu anghysondeb lle gellid diwygio'r cyfnod adolygu ar gyfer y Comisiwn gan ddefnyddio'r weithdrefn negyddol ac y byddai'n ofynnol i brif gynghorau ddefnyddio'r weithdrefn gadarnhaol. Effaith hynny fyddai gofyn am weithdrefn gwneud rheoliadau manylach i newid y cyfnod adolygu ar gyfer adolygiadau trefniadau etholiadol cymunedol nag a fyddai'n ofynnol ar gyfer adolygiadau prif drefniadau etholiadol ardal.

*10. Gwnaethoch ddweud hefyd eich bod yn bwriadu gwella hygyrchedd y gyfraith mewn perthynas ag etholiadau datganoledig. A allech egluro pam fod darpariaethau mewn perthynas ag anghymhwyso rhag bod yn Aelod o'r Senedd wedi'u cynnwys yn y Bil hwn, yn hytrach nag o fewn Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau)?*

Wrth ddatblygu a pharatoi Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau), ystyriodd Llywodraeth Cymru, a'u partneriaid Cytundeb Cydweithredu ym Mhlaid Cymru, nifer o bolisïau a oedd yn ymwneud ag argymhellion gwreiddiol y Pwyllgor Diben Arbennig, ond nad oedd eu hunain yn argymhellion penodol i'r pwyllgor. Roedd hyn yn cynnwys y gwaharddiad sy'n gysylltiedig â phreswyliaeth. Mae'r darpariaethau anghymhwyso yn y Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) yn rhan o becyn o ddiwygiadau yr ymgynghorwyd â hwy fel rhan o bapur gwyn (Ymgynghoriad Papur Gwyn ar weinyddiaeth etholiadol a diwygio). Mae gan ddiwygiadau o'r fath oblygiadau penodol hefyd i Awdurdodau Lleol a Chynghorau Tref a Chymuned. Nid oedd hyn yn cynnwys anghymhwysiad sy'n gysylltiedig â phreswylio.

Yn unol â hynny, ystyriwyd yn fwy priodol i'r anghymwysterau hyn gael sylw ar wahân, drwy'r ddau Fil. Mae'r ddau Fil yn cyflawni eu polisïau unigol drwy ddiwygio'r drefn anghymwyso bresennol yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006. Bydd hyn yn golygu, os bydd y Biliau yn cael eu deddfu, y bydd un drefn anghymhwyso o hyd gan sicrhau bod y ddeddfwriaeth yn parhau i fod yn hygyrch.

Yn ystod y drafodaeth, gofynnwyd i mi hefyd gadarnhau'r sefyllfa mewn perthynas â'r dull a'r broses o gyfrif mewn etholiad yng Nghymru, o gyfri â llaw i gyfrif electronig. Gallaf gadarnhau y gellir gwneud hyn drwy is-ddeddfwriaeth. Ar gyfer Etholiadau Llywodraeth Leol Cymru, mae hyn yn cael ei alluogi drwy adran 36A o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983. Ar gyfer Etholiadau'r Senedd, caiff hyn ei alluogi drwy adrannau 13 a 157 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

Rwy'n gobeithio bod y llythyr hwn wedi ymateb yn ddigonol i'ch ymholiadau, ac edrychaf ymlaen at dderbyn adroddiad y Pwyllgor ar y Bil maes o law.

Yn gywir,

**Mick Antoniw AS/MS**
Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad
Counsel General and Minister for the Constitution

**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

—

**Legislation, Justice and Constitution Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Mick Antoniw AS
Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad

28 Tachwedd 2023

Annwyl Mick,

Y Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru)

Diolch i chi am ddod i gyfarfod y Pwyllgor ar 20 Tachwedd i roi tystiolaeth ar y Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru). I gynorthwyo â'n gwaith craffu ar y Bil, byddem yn ddiolchgar pe gallech roi rhagor o fanylion am rai materion.

1. Gwnaethoch ddweud bod rhai o'r pwerau deddfu yn y Bil wedi'u cwtogi, yn enwedig mewn meysydd lle maent yn ymwneud â chreu troseddau. A allech chi egluro a wnaeth eich ystyriaeth chi o asesiad o'r effaith ar gyfiawnder yn ystod datblygiad y Bil arwain at unrhyw newidiadau i'w ddarpariaethau?

2. Er mai eich bwriad chi yw y bydd y Bwrdd Rheoli Etholiadol yn cynnal platfform gwybodaeth etholiadau Cymru, gwnaethoch ddweud nad ydych wedi nodi hynny ar wyneb y Bil oherwydd efallai y daw i'r amlwg y dylai corff mwy priodol ymgymryd â'r swyddogaeth hon. A allech roi enghraifft o gorff o'r fath?

3. Mae adran 5(4) yn darparu ar gyfer rheoliadau peilot i adlewyrchu'r darpariaethau cofrestru etholiadol heb geisiadau yn adran 3; fodd bynnag, nid yw gofyniad i beilota adran 3 yn golygu y daw'r adran honno i rym. A allech egluro a wnaethoch ystyried



Senedd Cymru
Welsh Parliament

gwneud y gallu i ddwyn adran 3 i rym yn amodol (er enghraifft, heb fod yn gynharach na phryd y daw o leiaf un peilot perthnasol ddod i ben), ac os felly, pam nad ydych yn gwneud hynny?

4. Mae’n ymddangos y gall Gweinidogion Cymru ddefnyddio’r pŵer o dan adran 5 i dreialu’r darpariaethau cofrestru diwygiedig a gyflwynir gan adran 3(2); fodd bynnag, mae pŵer dilynol yn adran 8 i newid y pŵer yn adran 5(3). A allech egluro o dan ba amgylchiadau rydych yn rhagweld y pŵer hwnnw yn cael ei ddefnyddio?

5. A allech egluro pam, yn rhinwedd adran 26 o'r Bil, yr ydych yn gwneud darpariaeth i newid y pŵer presennol i wneud rheoliadau yn adran 1 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 i fod yn bŵer i wneud cyfarwyddydau?

6. A allech egluro pa swyddogaethau rydych chi'n rhagweld y byddant yn cael eu rhoi i bersonau neu gategorïau o bersonau drwy reoliadau a wneir o dan adran 27(4), ac a allech chi egluro pam nad yw'r swyddogaethau hynny wedi'u cynnwys ar wyneb y Bil?

7. A allech egluro pa swyddogaethau rydych chi'n rhagweld y byddant yn cael eu rhoi i bersonau drwy reoliadau a wneir o dan adran 29(8), ac a allech chi egluro pam nad yw'r swyddogaethau hynny wedi'u cynnwys ar wyneb y Bil?

8. Mae’r pŵer i wneud rheoliadau yn adran 41 yn ddarostyngedig i’r weithdrefn negyddol. O ystyried y gellir defnyddio’r pŵer i ddiwygio deddfwriaeth sylfaenol, a allech chi egluro pam nad yw’n ddarostyngedig i’r weithdrefn gadarnhaol?

9. Mae’n ymddangos bod pŵer gwneud rheoliadau newydd wedi’i gynnwys yn adran 51 o’r Bil nad yw’n ymddangos yn y tabl o bwerau dirprwyedig yn y Memorandwm Esboniadol. A allech ddisgrifio’r pŵer, sut y bydd yn cael ei ddefnyddio a’r rhesymau dros y weithdrefn a ddewiswyd?

10. Gwnaethoch ddweud hefyd eich bod yn bwriadu gwella hygyrchedd y gyfraith mewn perthynas ag etholiadau datganoledig. A allech egluro pam fod darpariaethau mewn perthynas ag anghymhwyso rhag bod yn Aelod o'r Senedd wedi'u cynnwys yn y Bil hwn, yn hytrach nag o fewn Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau)?

Yn ystod y sesiwn fe gytunoch hefyd i ddarparu nodyn yn amlinellu pwerau presennol Gweinidogion Cymru i wneud is-ddeddfwriaeth i ddarparu ar gyfer cyfrif pleidleisiau yn electronig mewn etholiadau datganoledig.

Byddwn yn ddiolchgar o gael eich ymateb erbyn 19 Rhagfyr 2023.

Rwyf hefyd yn anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai.

Yn gywir,

Huw Irranca-Davies
Cadeirydd

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 11



Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 13

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon